# Agenda - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafelloedd Bwyllgora 1 a 2, Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Ionawr 2023

Amser: 08.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Manon George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddTai@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod (08.45 - 09.00)**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

**2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 - sesiwn dystiolaeth 1: llywodraeth leol**

(09.00 - 10.15) (Tudalennau 1 - 39)

Y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Y Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd, Cyngor Sir Ynys Môn

Christina Harrhy, Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Chris Llewelyn, Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 4, eitem 7 ac eitem 8 ar agenda'r cyfarfod hwn.**

**4 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2.**

(10.15 - 10.45)

**5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023 - 24 - sesiwn dystiolaeth 2: Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

(10.45 - 12.15) (Tudalennau 40 - 52)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Emma Smith, Pennaeth Polisi Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adfer wedi Covid a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

## 6 Papurau i'w nodi

(Tudalennau 53 - 54)

**6.1 Llythyr gan y Llywydd at bob Aelod mewn perthynas â busnes pwyllgorau**

(Tudalennau 55 - 56)

**6.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch ei ymchwiliad i Benodiadau Cyhoeddus**

(Tudalennau 57 - 58)

**6.3 Gohebiaeth rhwng y Prif Weinidog a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â goblygiadau ariannol Biliau**

(Tudalennau 59 - 63)

**6.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at yr holl Gadeiryddion pwyllgorau mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.**

(Tudalennau 64 - 67)

**6.5 Llythyr ar y cyd gan Cymorth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru at y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24**

(Tudalennau 68 - 69)

**6.6 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai mewn perthynas ag anghydraddoldebau iechyd meddwl.**

(Tudalennau 70 - 71)

6.7 Llythyr ar y cyd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog â Chyfrifoldeb am Ffoaduriaid o Wcráin, Llywodraeth yr Alban, at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol mewn perthynas â chartrefu ffoaduriaid o Wcrain.

(Tudalennau 72 - 73)

6.8 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â diogelwch adeiladau.

(Tudalennau 74 - 75)

6.9 Llythyr gan y Welsh Cladiators mewn perthynas â diogelwch adeiladau

(Tudalennau 76 - 77)

6.10 Rhagor o wybodaeth gan Shelter Cymru mewn perthynas â digartrefedd.

(Tudalennau 78 - 79)

## 7 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 5.

(12.15 - 12.45)

## 8 Trafod yr adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio).

(12.45 - 13.00) (Tudalennau 80 - 82)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 23-24

Jon Rae, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Adnoddau

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru**
Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol.

Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein haelodau yw'r 22 o Gynghorau yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Credwn fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**
Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u cynghorau trwy ddemocratiaeth leol. Trwy hyrwyddo'r cysylltiadau hynny, eu hwyluso a'u cyflawni, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

**Ein nod pennaf** yw hyrwyddo llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau Cynghorau yng Nghymru, eu diogelu, eu cefnogi a'u datblygu.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**
- Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau'r rhyddid mwyaf yn lleol mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Dadlau o blaid cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau a'i sicrhau
- Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
- Annog democratiaeth leol fywiog gan hybu mwy o amrywiaeth
- Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithluoedd yn effeithiol

## Cyflwyniad

1. Mae’r papur tystiolaeth hwn yn mynd i’r afael â’r cwestiynau a ofynnwyd gan y pwyllgor yn atodiad 2 i’r llythyr comisiynu. Mae’n seiliedig yn bennaf ar y papur a gyflwynwyd gennym i Lywodraeth Cymru mewn cyfarfod Is-grŵp Cyllid ar 13 Hydref. Roedd y rhan fwyaf ohono yn cynnwys ein hasesiad o bwysau gwario llywodraeth leol sydd wedi cynyddu’n sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Rydym wedi diweddaru ein hamcangyfrifon o’r pwysau yn 23-24 a 24-25 ar sail cynllun ariannol tymor canolig awdurdodau lleol. Mae’r rhain ar sail canlyniadau o arolwg lawn o’r cynghorau a’r gwasanaethau tân a gyflawnwyd yn ystod mis Awst/ Medi gyda chymorth Cymdeithas Trysoryddion Cymru.

## Crynodeb

2. Yn fwyfwy mae’r pwysau yn cynyddu yn y system ac yn dechrau edrych yn eithaf trychinebus. Mae profiad diweddar yn dweud wrthym fod pwysau ar gyllidebau llywodraeth leol yn amrywio o unrhyw beth rhwng £250m a £300m mewn unrhyw un flwyddyn ariannol. Er bod y pwysau yn y flwyddyn ariannol gyfredol yn gwneud iawn am setliad hael, mae’n ymddangos yn amlwg bod pwysau ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn dod i £257 miliwn. Bydd hyn yn dod yn bwysau cronnus o £784 miliwn erbyn diwedd 23-24 Mae chwyddiant cynyddol yn parhau i gynyddu’r sail cost £439 miliwn yn y flwyddyn ddilynol, sydd yn rhoi pwysau cronnus o £1.23 biliwn erbyn diwedd 24-25 yn ôl arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru.

3. Ar yr ochr gyllid, bydd cynnydd cynlluniedig mewn Cyllid Allanol Cyfun o 3.5% yn 23-24 a 2.4% yn 24-25, yn rhoi grant ychwanegol o £293m. Mae Cynghorau yn cynllunio ar gyfer gwerth £121 miliwn o gynnydd mewn treth y cyngor yn ystod yr un cyfnod. Mae cyfuno’r rhain a ffrydiau cyllido eraill yn golygu bod £421 miliwn o incwm ychwanegol ar gael sydd yn gadael diffyg cronnus o £802 miliwn erbyn diwedd 24- 25.

4. Mae pob awdurdod bellach yn adrodd ar orwariant yn y flwyddyn ariannol gyfredol, yn ogystal â bylchau yn y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod. Ar wahân i brofiad y misoedd cynnar y pandemig, does dim cynsail o bwysau o’r raddfa hyn yn cynyddu mor gyflym. Heb gyllid ychwanegol yna ni ellir pwysleisio digon ar y risgiau i holl wasanaethau llywodraeth leol gan gynnwys rhai mwy sef addysg a gofal cymdeithasol.

## Dadansoddiad

5. Ym mis Awst disgrifiodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid economi’r DU fel un mewn sefyllfa anodd. Gan gyfeirio at ragolygon economaidd diweddaraf Banc

Lloegr, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn dweud y bydd y DU yn wynebu dirwasgiad a chyfnod estynedig o chwyddiant uchel. Mae hyn am fod yn her ddifrifol i gartrefi, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus. Ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus lleol, nid yw cyllidebau sy'n seiliedig ar arian parod yn cynyddu'n awtomatig ar gyfer chwyddiant annisgwyl, mae cynghorau'n prynu llai o nwyddau a gwasanaethau, ac mae cyllidebau'n lleihau mewn termau real.

6. Mae pwysau chwyddiant yng nghyllidebau cynghorau'n codi o 4 prif ffynhonnell: cyflog, ynni cludiant a bwyd. Mae pwysau chwyddiannol ychwanegol a amlygwyd yn wreiddiol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn dechrau bwydo i mewn i ymrwymiadau gwariant eleni, gan effeithio'n sylweddol ar gynlluniau ariannol y dyfodol. Bydd hyn yn effeithio ar gyllidebau yn y flwyddyn ariannol gyfredol, ac yn 2023-24 a 24-25.

7. Mae Ffigur 1 yn dangos sut mae'r pwysau, yn y ddwy flwyddyn ariannol, yn torri i lawr yn ôl gwasanaeth a thema. Mae'r pwysau yn y flwyddyn ariannol gyfredol yn agos at £257m ac yn cael ei gynnwys ym mhwysau'r flwyddyn nesaf o £527m, sy'n golygu bod y pwysau cronnus yn £784m ar ddiwedd 23-24. Mae'r pwysau ychwanegol o £439m yn y flwyddyn ddilynol, yn rhoi pwysau cronnus o £1.23bn erbyn diwedd 24-25.

**Llun 1:** Pwysau Cyllideb Cynghorau, 2023-24 a 2024-25, £000oedd




Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2022

8. Er bod gwagddyfalu ynghylch a ellir ailagor yr adolygiad o wariant, proffil y cynnydd ar gyfer Cyllid Allanol Cyfun yw 3.5% (£177m) a 2.4% (£128m), ar gyfer 23-24 a 24-25, yn y drefn honno. Mae tybiaethau ynghylch y dreth gyngor yn seiliedig yn bennaf ar ystod a gallent gynhyrchu tua £60m ar gyfer pob un o'r blynyddoedd hynny. Mae cyfuno'r rhain a ffrydiau cyllido eraill yn golygu bod £421 miliwn o incwm ychwanegol ar gael sydd yn gadael diffyg cronnus o £802 miliwn erbyn diwedd 24- 25.

Chwyddiant Cyflogau

9. Yn ystod yr haf, yr her uniongyrchol oedd yr angen i recriwtio a chadw staff i gynorthwyo gyda'r adferiad ar ôl y pandemig. Gwnaethom adrodd am gyfyngiadau sylweddol o ran cyflenwadau mewn meysydd fel gofal cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i godi tâl gweithwyr gofal yn unol â'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i fynegeio o ran costau byw ac mae hynny'n ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol i £10.9 yn bwysau y mae angen ei gynnwys yn y cyllid ar gyfer 23-24, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynir.

10. Yn ystod y flwyddyn roedd y tri undeb NJC (UNSAIN, GMB ac Unite) wedi cyflwyno eu hawliad cyflog ar gyfer gweithwyr gwasanaethau llywodraeth leol ('Llyfr Gwyrdd') ar gyfer 2022-23. Mae'r honiad yn nodi bod gweithwyr cyngor '…wedi dioddef degawd o rewi cyflog a dyfarniadau cyflog islaw'r cyfartaledd…[ac]…wedi colli 27.5% ar gyfartaledd o werth eu colofn gyflog ers 2010. Gosodir yr hawliad cyflog yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw a phwysau chwyddiant.

11. Ar ddiwedd mis Gorffennaf, bu i gyflogwyr cenedlaethol ymateb i hawliad tâl yr undebau gyda chynnig o £1,925. Yn gyffredinol, mae hyn yn rhoi 6.5% i 7.5% ychwanegol o bwysau ar y bil talu llywodraeth leol, gyda mwyafrif o awdurdodau yn honni rhwng 3% i 4% ar adeg pan gafodd cyllidebau ar gyfer 22-23 eu gosod ar ddechrau 2022. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gyflogau Athrawon a chynnig 5%. Eto, roedd y mwyafrif o gynghorau yn honni rhwng 3% a 4%.

12. Mae aelodau UNSAIN a GMB wedi pleidleisio i dderbyn cynnig cyflog terfynol y Cyflogwyr Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr gwasanaethau llywodraeth leol ('Llyfr Gwyrdd'). Fodd bynnag, mae Unite wedi gwrthod hynny. Mae hyn yn siomedig ond nid yw'n atal cytundeb ar y cyd rhag cael ei gyrraedd a'i roi ar waith gan gyflogwyr, gan fod Unsain a GMB yn cynrychioli'r mwyafrif ar Ochr yr Undebau Llafur ac wedi derbyn y cynnig yn ffurfiol. Rhoddwyd gwybod i Gynghorau ar 1 Tachwedd.

13. Diwygiodd y cyflogwyr cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub eu cynnig cyflog, gan gynnig codiad o 5% ar draws yr holl bwyntiau cyflog ar 4 Hydref 2022. Mae hyn bellach yn nwylo Undeb y Brigadau Tân i'w ystyried. Er y

gellir talu cost hyn drwy'r cyllidebau presennol ar gyfer 2022-23, bydd effaith ar ardoll cyfraniad y gwasanaethau tân yn y dyfodol, a rhagwelir cynnydd o rhwng 10-16%.

14. Ar y cyfan, mae'r ymatebion i'r arolwg yn dweud wrthym fod y cynnydd heb ei gynllunio yn y bil cyflogau yn 22-23 yn dod i £109m: £32m ar gyfer ysgolion, £20m ar gyfer gofal cymdeithasol a £57m ar gyfer gwasanaethau eraill y cyngor. Fel cyflogwyr cyfrifol, sydd wedi ymrwymo i bartneriaeth gymdeithasol, byddwn yn cymryd rhan lawn mewn trafodaethau gyda'r undebau dros y cyfnod nesaf. Mae cynghorau'n gwneud cynlluniau ar gyfer £462m o bwysau cyflog erbyn diwedd 24-25, sef bron i 40% o'r pwysau cronnol cyffredinol o £1.18bn.

Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog

15. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol cododd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 10.1% yn y 12 mis hyd at fis Medi 2022. Mae'r cynnydd cyflym mewn chwyddiant yn amlwg wrth gymharu'r ffigur hwn â Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 3.1% ym mis Medi 2021. Mae cynnydd mewn costau ynni yn nodwedd gyson yn y rhesymau dros y cynnydd sylweddol a welwyd yn 2022.

16. Ym mis Awst 2022, nododd adroddiad Polisi Ariannol Chwarterol Banc Lloegr chwyddiant yn llawer uwch na'u targed o 2%. Nododd, 'Mae prisiau ynni uwch yn un o'r prif resymau am hyn'. Mae ymosodiad Rwsia ar Wcráin wedi arwain at fwy o gynnydd yn y pris nwy. Ers mis Mai, mae pris nwy wedi dyblu a mwy. Credwn y bydd y codiad prisiau hynny yn gwthio chwyddiant hyd yn oed yn uwch dros yr ychydig fisoedd nesaf, i tua 13%. Cafodd y siart canlynol ei gynnwys yn yr adroddiad.

**Llun 2:** Dadansoddiad a rhagolwg Chwyddiant Banc Lloegr Awst 2022




Ffynhonnell: Banc Lloegr

17. Mae effaith costau cynyddol oherwydd y cynnydd cyflym mewn chwyddiant wedi arwain at ailgyfrifiad sylweddol o amcangyfrif o'r costau chwyddiant nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a wynebir gan gynghorau yn 2023-24. Ar adeg arolwg blaenorol Cymdeithas Trysoryddion Cymru yn 2021, roedd y pwysau chwyddiannol nad yw'n ymwneud â chyflogau ar gyfer 2023-24 wedi'i gyfrifo ar £65m. Mae'r arolwg diweddar wedi gweld y cynnydd hwn i £124m gan greu amcangyfrif o £58m o bwysau ychwanegol.

18. Daw'r chwyddiant ar lefelau y tu allan i amcangyfrifon blaenorol ar adeg pan fo'r cymorth ariannol dros dro sylweddol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig wedi dod i ben. Bydd chwyddiant uwch hefyd yn sbarduno mwy o alw am wasanaethau ar adeg pan fo cynghorau yn wynebu pwysau chwyddiant.

19. Mae hefyd yn amlwg bod y sefyllfa chwyddiant wedi gwaethygu'n gyflym yn 2022, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ragamcanion ariannol sydd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau ariannol tymor canolig gael eu diweddaru'n sylweddol. I lawer o gynghorau mae hyn yn golygu cynnydd o 100% yn y costau chwyddiant nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a ragwelir ar gyfer 2023-24.

20. Mae'r arolwg yn dangos bod effaith chwyddiant yn cael ei gyrru gan effaith digwyddiadau byd-eang na all cynghorau wneud fawr ddim i'w lliniaru. Gyda thybiaethau treth gyngor cyfartalog wedi'u gosod ar ychydig o dan 4%, mae'n rhaid i gynghorau gydbwyso'r cynnydd mewn cyllid gyda'r pwysau costau byw a wynebir gan drigolion. Waeth beth fo'r tybiaethau Treth y Cyngor, mae'r pwysau presennol a amcangyfrifir yn y flwyddyn ariannol bresennol ac yn y dyfodol y tu

hwnt i'r amcangyfrifon a wnaed y llynedd a oedd yn bwydo i mewn i'r adolygiad o wariant.

21. Mae neges gyson ynghylch y pwysau mae cynghorau yn eu hwynebu ar hyn o bryd, sydd yn adrodd bod meysydd megis cludiant o'r cartref i'r ysgol, arlwyo mewn ysgolion a chostau ynni yn achosi pwysau ar gyllidebau refeniw yn barod. Mae un awdurdod yn nodi bod pwysau chwyddiant ar gludiant o'r cartref i'r ysgol £950k yn uwch na'r gyllideb bresennol. Mae chwyddiant wedi gweld contractau'n cael eu pasio'n ôl gan rai darparwyr cludiant. Yn anochel, mae tuedd gyffredinol i gontractau gael eu hailbrisio ar adeg ail-dendro.

22. Mae canfyddiadau arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru yn cyd-fynd â'r rhai a wnaed gan Grŵp Arbenigol Gwybodaeth y Farchnad (MIEG), is-grŵp o Rwydwaith Caffael Cenedlaethol CLlLC, a ffurfiwyd ym mis Mehefin 2022 i gydlynu a rhannu gwybodaeth am y farchnad. Nododd papur briffio MIEG ym mis Medi fod chwyddiant yn effeithio ar gategorïau gwariant cynghorau o gyfleustodau i fwyd. Amlygodd fod rhai rhannau o'r economi yn dioddef chwyddiant sy'n fwy na phrif gyfraddau Mynegai Prisiau Defnyddwyr neu Fynegai Prisiau Manwerthu. Er enghraifft, roedd chwyddiant bwyd dros 10% ym mis Awst 2022, yr uchaf ers 40 mlynedd. Bydd hyn yn effeithio ar feysydd fel prydau ysgol yn ogystal â bywydau'r rhai mwyaf diamddiffyn sy'n dibynnu ar wasanaethau'r cyngor.

23. Mae rhai cynghorau yn gallu lliniaru'r costau cynyddol yn y flwyddyn gyfredol drwy gytundebau ynni sefydlog presennol. Fodd bynnag, ni fydd y gosod pris hyn yn cyflenwi blwyddyn ariannol 2023-24. Ar hyn o bryd, nid oes sicrwydd ynghylch Gwarant Pris Ynni Llywodraeth y DU ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ar ôl mis Mawrth 2023. Yn dibynnu ar y fframwaith a fabwysiadwyd, mae rhai awdurdodau yn wynebu costau cynyddol o ail hanner y flwyddyn gyfredol, er y gallent fod yn is na'r cap.

24. Mae sefyllfa ar gyfer 2024-25 yn cael ei effeithio hefyd gan chwyddiant cynyddol. Mae'r effaith tybiedig o £56 miliwn ychwanegol yn dod ag effaith dwy flynedd ar gyfer chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog yn £179 miliwn.

<u>Addysg (Ysgolion)</u>

25. Mae'r arolwg yn dangos bod Ysgolion yn wynebu pwysau ariannol oherwydd chwyddiant o tua £161m yn 2023-24, a £102m pellach yn y flwyddyn ganlynol. Mae effaith pwysau chwyddiant yn amlwg o ystyried bod arolwg y flwyddyn flaenorol wedi amcangyfrif y byddai pwysau chwyddiant yn £49m yn 2023-24, sef traean o'r amcangyfrif presennol. Mae ysgolion hefyd yn wynebu galw a phwysau eraill, gan ddod â'r cyfansymiau cyffredinol i £177m yn 23-24 a £114m yn 24-25. Gyda'i gilydd, mae pwysau o £291m dros y cyfnod o ddwy flynedd.

26. Mae amcangyfrifon ysgolion yn cynnwys effaith y cynnydd mewn prisiau ynni, er bod rhai awdurdodau yn aros am gyfraddau contract newydd. Mae un awdurdod yn amcangyfrif y bydd costau ynni uwch o dros 60% ar gyfer trydan a chynnydd o 160% ar gyfer nwy yn berthnasol o fis Hydref 2022 (nid yw hyn yn ystyried unrhyw gap a bennwyd gan y Llywodraeth).

27. Mae cynghorau'n cynnwys y duedd gyffredinol o ail-brisio contractau ar werthoedd uwch yn eu hamcangyfrifon pan fydd gwasanaethau / gwaith yn cael eu hail-dendro. Mae hyn hefyd yn cynnwys contractau bwyd yn ogystal â chontractau cynnal a chadw.

28. Mae chwyddiant cyflog o £115m ar gyfer ysgolion yn cynnwys y dyfarniad cyflog tybiedig ar gyfer 2023-24. Mae awdurdodau hefyd yn cynnwys cyllid 'dal i fyny' ar gyfer cynnig cyflog arfaethedig 2022-23. Mae rhywfaint o bwysau yn cael ei wynebu gan ysgolion o ran gofynion anghenion dysgu ychwanegol.

29. Mae pryderon ynghylch costau cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cynyddu. Mae cynghorau'n gweld contractwyr yn cynyddu eu costau'n sylweddol. Maen nhw teimlo'n ddiamddiffyn gan fod dros 50% o ysgolion y cyngor wedi'u contractio â rhai ohonynt. Mae hyn wedi gweithio yn y gorffennol i gadw costau i lawr, ond y risg bellach yw cynaliadwyedd y contractwyr. Mae un awdurdod yn wynebu methiant yn y farchnad ac nid yw wedi derbyn unrhyw gynigion gan gontractwyr. Mae'n ceisio trefniadau amgen, hyd yn oed y posibilrwydd o sefydlu ei weithredwyr marchnad ei hun.

30. Mae adeiladu ysgolion newydd yn ychwanegu pwysau at gyllidebau gan fod costau adeiladu gwreiddiol wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd y costau chwyddiant sy'n cynyddu bob chwarter.

<u>Gofal Cymdeithasol</u>

31. Mae'r pandemig wedi gwaethygu llawer o'r heriau presennol o fewn gofal cymdeithasol yr oeddem eisoes yn ymwybodol iawn ohonynt, gan gynnwys galw cynyddol am wasanaethau ynghyd â chymhlethdodau cynyddol, cyllid annigonol a phwysau sylweddol ar y gweithlu. Mae arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru yn nodi bod gofal cymdeithasol yn wynebu her ariannol sylweddol yn 2023-24 a 2024-25. Mae'r pwysau a wynebir gan wasanaethau oedolion a gwasanaethau plant yn cynnwys recriwtio a chadw staff ac mae'r mater hwn hefyd yn effeithio ar wasanaethau a gomisiynir gan ddarparwyr. O ganlyniad, mae cynghorau yn ystyried yr angen i ddefnyddio staff asiantaeth ac mae'r costau hyn yn ychwanegu ymhellach at bwysau ariannol yn y dyfodol. Mae cynghorau'n dweud bod y pandemig wedi cynyddu'r pwysau ariannol ar wasanaethau gofal cymdeithasol, ac mae hyn yn parhau i fod yn amlwg hyd yn oed wrth i gynghorau symud i'r cyfnod adfer.

32. Nododd yr arolwg werth £95m o bwysau yn ystod y flwyddyn ym maes gofal cymdeithasol, gyda chwyddiant cyflog a chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog yn cyfrif am tua £41m.  Mae pwysau o ran galw yn y gwasanaethau oedolion yn cyfrif am £25m a'r gwasanaethau plant yn cyfrif am £30m.  Gyda'i gilydd bydd y pwysau hyn yn codi i £256m yn 23-24 a £156m yn 24-25, gan roi cyfanswm cronnol o £361m. Mae gwasanaethau a gomisiynir, sy'n hanfodol i ddarpariaeth gofal cymdeithasol, gan ddarparwyr annibynnol hefyd yn cael eu heffeithio gan faterion tebyg i wasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae costau rhedeg uwch o ran staff ac ynni, yn ogystal â chynnydd o ran yswiriant a thanwydd, yn ychwanegu fwyfwy at bwysau ariannol sylweddol.

33. Mae breuder y farchnad, yn enwedig mewn perthynas â gofal cartref (yn fewnol ac wedi'i gomisiynu), lle mae galw cynyddol, ynghyd â diffyg darparwyr addas wedi'i nodi fel problem yn flaenorol. Mae'r arolwg yn dangos bod y farchnad gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn fregus, ac mae hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd hirdymor y sector. Mae awdurdodau lleol wedi gweld pecynnau gofal cartref yn cael eu dychwelyd gan ddarparwyr, sy'n cael effaith ehangach ar ddarpariaeth ailalluogi, trefniadau rhyddhau o'r ysbyty, atal derbyniadau ac ymateb i angen brys. Mae'n anochel y bydd rhai cynghorau'n wynebu pwysau i ddarparu darpariaeth ailalluogi os caiff pecynnau gofal cartref eu dychwelyd.

34. Mae pryderon cynyddol hefyd am ofalwyr di-dâl sydd wedi parhau o dan bwysau difrifol drwy gydol y pandemig. Er bod gwasanaethau gofalwyr wedi parhau i gefnogi pobl, bu cynnydd yn y galw, gyda phryderon y bydd mwy o alw am gymorth ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau os na fydd gofalwyr di-dâl yn gallu parhau i ofalu'n effeithiol.

35. Mae colli blwyddyn (2021-22 yn unig) o gyllid Llywodraeth Cymru i'r Gronfa Adfer Gofal Cymdeithasol a'r Grant Pwysau Gofal Cymdeithasol wedi effeithio ar y gallu i ariannu pwysau megis lleoliadau cost uchel o fewn Gwasanaethau Oedolion (fel pecynnau gofal yn y cartref 24 awr). Mae Cynghorau'n delio â ac yn ystyried costau pwysau'r dyfodol a dalwyd yn flaenorol gan gyllid caledi er mwyn helpu gyda chostau sy'n gysylltiedig â'r pandemig.  Mae un cyngor yn nodi bod rhai cleientiaid sydd wedi wynebu oedi o ran gofal iechyd bellach yn dod at y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol gyda dibyniaeth uwch, ac felly'n gofyn am ddarpariaeth gofal mwy costus.

36. Mae rhai cynghorau yn nodi bod cleientiaid yn symud drosodd o Loegr i elwa ar y terfynau trothwy cyfalaf mwy hael yng Nghymru wrth symud i gartref gofal.  Mae rhai yn wynebu pwysau galw gan Iechyd ac ysbytai i ddarparu gofal i gyflymu'r broses rhyddhau.

37. Mae pryderon yn parhau i gael eu hamlygu ynghylch yr heriau o ran dod o hyd i leoliadau priodol ac o ansawdd i blant a phobl ifanc. Yn benodol, diffyg darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth gyda diffyg lleoliadau maethu a phreswyl. Mae pwysau costau amcangyfrifedig gwasanaethau plant yn

adlewyrchu gofal pwrpasol cost uchel. Mae galw mawr am hyn, ond mae'r cyflenwad o wasanaethau priodol yn isel. O ganlyniad, mae un cyngor wedi gweld cynnydd o 25% yng nghost gyfartalog lleoliadau yn y 12 mis diwethaf. Mae costau uchel lleoliadau gofal yn adlewyrchu diffyg argaeledd sy'n golygu bod comisiynu lleoliadau yn her.

38. Mae problemau sylweddol hefyd mewn perthynas â recriwtio a chadw staff gwaith cymdeithasol profiadol yn y gwasanaethau plant. Mae'r galw am weithwyr parhaol, profiadol yn fwy na'r cyflenwad, mae hyn hefyd yn arwain at fwy o ddibyniaeth ar staff asiantaeth drutach. Yn ogystal, mae cynghorau yn adrodd am effaith o ganlyniad i addewid 'nid-er-elw' Llywodraeth Cymru gydag arwyddion bod datblygu'r ymrwymiad hwn yn cael effaith ansefydlog ar argaeledd darpariaeth breswyl.

39. Gwelwyd lefelau uwch o atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau cymorth cynnar / ymyrraeth, gyda COVID-19 yn cael effaith ar sefydlogrwydd, datblygiad a diogelwch plant a theuluoedd. Ynghyd â chynnydd yn nifer yr achosion, bu cynnydd yng nghymhlethdod yr angen sy'n gofyn am ymyriadau / gweithwyr arbenigol. Mae Cynghorau wedi cydnabod ers amser hir bod angen ffocws cynyddol a buddsoddiad mewn gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar. Rhaid defnyddio ymyraethau a dulliau mwy sylfaenol i gefnogi teuluoedd yn gynt, gan osgoi problemau rhag gwaethygu a'r angen am ymatebion i argyfwng. Byddai dull o'r fath yn golygu canlyniadau a phrofiadau gwell i deuluoedd a llai o bwysau ar wasanaethau cymdeithasol yn ei gyfanrwydd (a hefyd yn debygol o arwain at lai o blant yn dod i ofal). Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau ataliol newydd a phresennol.

40. Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Archwilio Cymru 'Darlun o Ofal Cymdeithasol' a oedd yn crynhoi gwybodaeth allweddol am Ofal Cymdeithasol yng Nghymru. Nodwyd fod y galw am ofal cymdeithasol i oedolion yn debygol o gynyddu yn sylweddol. Mae'r adroddiad yn nodi 'Bydd yr heriau o fynd i'r afael ag effaith anuniongyrchol COVID-19 yn debygol o barhau am flynyddoedd i'r dyfodol. Mae'r broblem yn cael ei dwysáu gan y ffaith bod yna broblemau sylweddol, hirsefydlog yn y sector gofal cymdeithasol ers cyn y pandemig', gyda'r adroddiad yn nodi'r angen i sicrhau cynaliadwyedd ariannol a threfniadau ariannu fel un o'r materion allweddol. Mae amcangyfrifon ariannol y 22 awdurdod Cymreig yn ychwanegu cefnogaeth bellach i gasgliadau Archwilio Cymru.

<u>Wcráin ac ymfudo ehangach</u>

41. Mae ymateb Cymru i gefnogi'r rhai sy'n dioddef oherwydd y rhyfel yn yr Wcráin wedi cael effaith sylweddol ar gynghorau. Maen nhw wedi bod yn gyfrifol am ystod o swyddogaethau i sicrhau bod y rhai sy'n cyrraedd Cymru yn cael llety diogel ac yn cael y cymorth angenrheidiol i ymgartrefu ac ailsefydlu eu bywydau. Er bod cyllid yn cael ei ddarparu i gynghorau ar hyn o bryd gan

Lywodraeth y DU i gefnogi'r gwaith hwn, gan gynnwys cyllid ar gyfer addysg, nid oes unrhyw gyllid wedi'i ymrwymo ar ôl diwedd mis Mawrth 2023. Os na ddarperir cyllid parhaus, bydd hyn yn effeithio'n sylweddol ar allu cynghorau i barhau i gefnogi'r gwaith hwn.

42. Mae cynghorau hefyd yn wynebu pwysau cynyddol o ganlyniad i raglenni eraill sy'n ymwneud â mudo, gan gynnwys darparu lleoliadau ar gyfer plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain a pholisi Llywodraeth y DU o wasgaru ceiswyr lloches yn llawn. Bydd hyn yn gweld nifer uwch o hyd at 2,344 o geiswyr lloches ychwanegol yn cael eu lletya mewn cymunedau Cymreig erbyn diwedd mis Rhagfyr 2023. Nodir bod y rhaglenni hyn yn cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth y DU ac nad ydynt wedi'u datganoli. Fodd bynnag, mae gwasanaethau cymorth megis addysg, digartrefedd a gwasanaethau ailgartrefu wedi'u datganoli a bydd galw ychwanegol yn effeithio arnynt.

<u>Tai a digartrefedd</u>

43. Cafodd ei yrru yn y lle cyntaf gan y pandemig a'r newidiadau i'r canllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru, a bu newid sylweddol yn y dull o ddarparu llety dros dro mewn argyfwng ar gyfer aelwydydd digartref. Mae niferoedd cynyddol o bobl yn cael eu rhoi mewn llety dros dro mewn argyfwng wedi'u darparu gan Gynghorau (8,468 o unigolion ar ddiwedd mis Gorffennaf 2022). Ers dechrau'r pandemig mae dros 25,200 o bobl a oedd gynt yn ddigartref wedi cael cefnogaeth drwy lety dros dro mewn argyfwng. Mae cynnydd cyson o ran nifer y bobl mewn llety dros dro mewn argyfwng ac nid yw'n ymddangos y bydd hynny'n lleihau'n fuan.

44. Yn ogystal â chynnydd yng nghostau'r cartref i bawb, gan gynnwys costau ynni'n codi, mae cynnydd sylweddol wedi bod i rent yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Gyda bwlch cynyddol dros gymorth Lwfans Tai Lleol, mae hyn yn golygu bod y Sector Rhentu Preifat yn fwyfwy anodd i lawer o aelwydydd gael mynediad iddo a'i fforddio. Mae cyfnod estynedig o gostau defnyddwyr yn cynyddu a chyfraddau llog uwch, heb unrhyw gynnydd mewn incwm aelwydydd, hefyd yn debygol iawn o effeithio ar berchen-ddeiliaid, a fydd yn ei chael yn anoddach talu eu morgais. Bydd y cyfan yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau digartrefedd a'r defnydd o lety dros dro.

45. Y Grant Cymorth Tai yw prif ffrwd gyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer atal digartrefedd, sy'n cefnogi dros 60,000 o bobl bob blwyddyn i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau. Trwy gynnig lloches, llety â chymorth a gwasanaethau cefnogi tenantiaeth, mae'r Grant Cymorth Tai yn galluogi pobl i droi eu cefn ar ddigartrefedd, gadael perthnasoedd camdriniol, cynnal eu tenantiaeth, goresgyn problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, datblygu eu cryfderau a

chyflawni eu dyheadau. Mae'r cyllid Grant Cymorth Tai blynyddol presennol o £166 miliwn dan bwysau sylweddol i fodloni'r galw cynyddol yn gysylltiedig â'r pwysau o ran digartrefedd a amlinellir uchod, a'r angen i sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu gan Gynghorau'n cael digon o gyllid i dalu cyflog teg i'w staff a rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt.

Cyfalaf

46. Casglodd yr arolwg dystiolaeth hefyd am raglenni cyfalaf a phwysau. Mae'r ymatebion yn nodi y bydd setliad refeniw tyn yn effeithio ar raglenni cyfalaf. Bydd ariannu ar gyfer benthyca o'r gyllideb refeniw yn ffynhonnell arian bosibl, i lenwi bylchau yn y cyllidebau gwariant o ddydd i ddydd o ganlyniad i setliad ariannu tynn. Gallai hyn arwain cynghorau i ohirio neu ddileu rhaglenni cyfalaf i gyflawni blaenoriaethau lleol allweddol.  Bydd hefyd yn rhoi pwysau ar arian cyfatebol ar gyfer prosiectau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyfrannu at y gost gyffredinol. Ar y cyfan, mae'n ymddangos yn debygol y bydd rhaglenni cyfalaf cynghorau yn cael eu lleihau.

47. Mae tystiolaeth gref bod chwyddiant yn effeithio ar gostau datblygu prosiectau presennol. Mae cynghorau wedi codi pryderon ynghylch costau ychwanegol sylweddol i fodloni gofynion sero net 2030, yn enwedig ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif. Yn ogystal, mae nifer o gontractwyr ledled Cymru wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, gan arwain at ail-dendro'r contract gyda chostau ychwanegol dilynol. Lle mae hyn wedi'i ariannu gan grant, mae cynghorau wedi ceisio grant ychwanegol, ond nid oes unrhyw sicrwydd o gymorth a allai arwain at bwysau ychwanegol posibl ar raglenni cyfalaf.

48. Y brif ffynhonnell ariannu yw'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac mae cyfraddau hirdymor yn tua 5% ar hyn o bryd, er bod llawer o ansefydlogrwydd yn y marchnadoedd. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfraddau pan osodwyd rhaglenni cyfalaf ym mis Mawrth 2022. Mae hyn yn peri risg sylweddol i fforddiadwyedd a chynaliadwyedd, yn enwedig o ran cynlluniau tai ac isadeiledd asedau craidd helaeth y tybir y telir amdano drwy fenthyca.

Newid yn yr hinsawdd

49. Mae cynghorau wedi gwneud nifer o ymrwymiadau i gyfrannu at y targed o allyriadau sero net yn y sector cyhoeddus erbyn 2030. Mae llawer o'r camau sydd eu hangen yn ymwneud â buddsoddiad cyfalaf (e.e. mewn perthynas ag eiddo ac ynni, trawsnewid fflyd, datgarboneiddio tir). Bydd angen ystod eang o ffrydiau ariannu i wneud y math o newidiadau sydd eu hangen ar y cyflymder gofynnol. Gallai hynny gynnwys benthyca i dalu costau ymlaen llaw y bydd yn rhaid wedyn eu had-dalu o gyllidebau refeniw dros nifer o flynyddoedd. Gallai

hefyd gynnwys prydlesu neu logi (e.e. ar gyfer cerbydau) yn hytrach na gwariant cyfalaf. Mae goblygiadau o ran y gweithlu y bydd angen mynd i'r afael â nhw, gan weithio gydag undebau mewn dull partneriaeth gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys ailhyfforddi a recriwtio mewn llawer o achosion (e.e. cynnal a chadw cerbydau; rheoli ynni a'r amgylchedd; dulliau cyfrifyddu ariannol). Mae'r prinder llafur presennol mewn llawer o swyddi 'gwyrdd' mewn cynghorau wedi amlygu nid yn unig y prinder staff â'r sgiliau gofynnol, ond hefyd y gwahaniaethau mewn cyflogau gyda'r sector preifat, a bod cadw staff hyfforddedig yn broblem gynyddol.

50. Mae mesurau pwysig eraill yn ymwneud â chaffael, lle mae angen i gynghorau leihau allyriadau 'Cwmpas 3', sy'n ymwneud (ymysg pethau eraill) â'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynir ganddynt. Lle mae cyflenwyr wedi datblygu cynlluniau carbon i leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â'u nwyddau a'u gwasanaethau, bydd y costau uniongyrchol yn tueddu i fod yn uwch (er bod manteision amgylcheddol, a chymdeithasol ac economaidd ehangach yn aml – e.e. yn deillio o brynu'n lleol). Ar adeg o bwysau ariannol sylweddol, bydd yn her i gynghorau 'wneud y peth iawn' yn hytrach na dewis yr opsiwn mwyaf fforddiadwy.

51. Bydd camau gweithredu newid yn yr hinsawdd yn cael eu had-dalu (o ran addasu yn ogystal â lliniaru). Fodd bynnag, y materion dan sylw, yn gyntaf, yw'r amserlenni ar gyfer yr ad-daliad hwnnw ac, yn ail, nad yw llawer o'r manteision yn dod i'r cyngor mewn ystyr uniongyrchol neu ariannol. Yn hytrach, byddant yn aml yn cyfrannu at nodau lles ar gyfer y gymuned ehangach – er enghraifft mwy o swyddi lleol, bwyd iachach, amgylchedd o ansawdd gwell, enillion bioamrywiaeth, mwy o wydnwch yn erbyn tywydd eithafol yn y dyfodol. Y risg yw y bydd y mesurau angenrheidiol yn argyfwng o bwysau ariannol presennol, gan achosi iddynt gael eu gohirio, ond yn ddelfrydol dylid eu blaenoriaethu i sicrhau amseroldeb a'r effaith fwyaf bosibl.

## Casgliad

52. Yng nghyfarfod Pwyllgor Gwaith CLlLC ar ddydd Gwener 30 Medi, daeth yn amlwg bod y sefyllfa'n gyfnewidiol iawn a bod yr amcangyfrifon yn yr arolwg wedi'u disodli mewn ychydig wythnosau.  Dywedodd Arweinwyr y Cyngor bod yr effaith o gyllidebau bach yn dal i gael eu hasesu gyda rhai awdurdodau yn adrodd bod eu bylchau cyllideb wedi cynyddu tua chwarter ers dychwelyd yr arolwg.

53. Yn ystod y pythefnos diwethaf, mae'r cyfryngau wedi nodi'r heriau y mae hanner dwsin o gynghorau yn eu hwynebu; mae'n ddarlun sydd i'w weld ledled Cymru, ac mae'n dod yn gyfnod cynyddol lwm.  Ar ben hynny, dywed gweinidogion Llywodraeth Cymru y bydd chwyddiant yn erydu eu cyllideb o £4bn dros gyfnod adolygu'r gwariant presennol.

54. I gloi, mae ein hamcangyfrifon presennol o bwysau wedi cynyddu ers yr asesiad manwl diwethaf yn yr haf ac maent yn parhau i gynyddu. Heb ragor o arian, mae awdurdodau lleol yn wynebu penderfyniadau amhosibl. Byddai unrhyw ddychweliad i galedi fod yn drychinebus i'r gwasanaethau ataliol y mae'r llywodraeth leol yn ei ddarparu, ac i bobl sydd yn dibynnu arnynt; yn gatastroffig i'r GIG sydd yn dibynnu ar system gofal sydd wedi'i ariannu'n dda; ac yn digalonni ein gweithlu yn sylweddol.

55. Rydym yn parhau i groesawu'r dull partneriaeth yr ydym wedi'i feithrin gyda Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r berthynas waith agos rhwng gweinidogion ac arweinwyr sydd wedi datblygu yn y blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi ymrwymo i barhau gyda'r dull hwnnw er mwyn diogelu ein blaenoriaethau a rennir rhag yr effeithiau gwaethaf o'r stormydd economaidd sydd i ddod.

---

**Cliriwyd gan:** **Y Cynghorydd Anthony Hunt**

**Awduron:** Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau

[redacted] [redacted]

**ATODIAD I**

## Pwysau ariannol a ragfynegir ar gyfer blwyddyn 2023-24 (dros y gyllideb)

| | Projected Pressures, 20-23 £000s |
|---|---|
| **A. LA-related (excl. schools and social services)** | |
| Pay inflation pressures | 56,806 |
| Non pay inflation pressure | 29,705 |
| **Inflation (Stand Still) pressures** | 86,511 |
| **Non Inflation Financial pressures** | |
| a. Demand related pressures | 22,892 |
| b. Capital financing pressures | 831 |
| c. Reduction in specific grants | 1,497 |
| d.Local priorities | 1,361 |
| e. Other | 7,654 |
| **Total LA-related (excl. schools and social services)** | **34,235** |
| **B. Schools** | |
| Pay inflation pressures | 31,756 |
| Non pay inflation pressure | 6,578 |
| Fees/Charges inflation (positive) | - |
| **Inflation (Stand Still) pressures** | 38,334 |
| **Financial pressures** | |
| a. Demand related pressures | 1,844 |
| b. Capital financing pressures | - |
| c. Reduction in specific grants | 275 |
| d.Local priorities | - |
| e. Other | 610 |
| **Total Schools** | **2,729** |
| **C. Social Services** | |
| Pay inflation pressures | 20,121 |
| Commissioning Cost Pressures - Adults' | 11,246 |
| Commissioning Cost Pressures - Children's | 7,473 |
| Non pay inflation pressure | 1,781 |
| **Inflation (Stand Still) pressures** | 40,621 |
| **Financial pressures** | |
| **a. Demand related pressures** | |
| **Adults Services** | |
| Domiciliary Care (incl supported living) | 7,454 |
| Residential Placements | 11,913 |
| Other | 5,180 |
| **Childrens Services** | |
| Domiciliary Care | 379 |
| Residential Placements | 19,687 |
| Foster Care | 682 |
| Other | 9,289 |
| **Total Social Services** | **54,584** |
| **Total projected financial pressures (A+B+C)** | **257,014** |

**ATODIAD II**

## Pwysau ariannol a ragfynegir, 2023-24 a 2024-25 (parhad)

| | Pwysau a Ragfynegir | | |
|---|---|---|---|
| | **2023-24 £000oedd** | **2024-25 £000oedd** | **Cyfanswm £000oedd** |
| A. Cysylltiedig ag Awdurdod Lleol (ac eithrio ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol) | | | |
| Pwysau chwyddiant cyflog | 122,121 | 62,555 | 184,677 |
| Pwysau chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog | 127,446 | 56,183 | 183,629 |
| Ffioedd / Taliadau chwyddiant (positif) | - 5,539 | - 5,071 | - 10,610 |
| Pwysau chwyddiant (sefydlog) | 244,028 | 113,667 | 357,696 |
| Pwysau ar gyllideb | | | |
| a. Pwysau mewn perthynas â galw | 37,988 | 30,634 | 68,622 |
| b. Pwysau cyllido cyfalaf | 14,145 | 11,695 | 25,840 |
| c. Gostyngiad mewn grantiau penodol | 5,160 | 1,170 | 6,330 |
| d. Blaenoriaethau lleol | 21,442 | 4,050 | 25,492 |
| e. Arall | 28,259 | 12,202 | 40,461 |
| Cyfanswm Cysylltiedig ag Awdurdod Lleol | 106,994 | 59,751 | 166,745 |
| B. Ysgolion | | | |
| Pwysau chwyddiant cyflog | 114,685 | 86,631 | 201,316 |
| Pwysau chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog | 46,061 | 15,989 | 62,050 |
| Ffioedd / Taliadau chwyddiant (positif) | - 347 | - 365 | - 712 |
| Pwysau chwyddiant (sefydlog) | 160,399 | 102,255 | 262,654 |
| Pwysau ar gyllideb | | | |
| a. Pwysau mewn perthynas â galw | 13,221 | 9,259 | 22,481 |
| b. Pwysau cyllido cyfalaf | - 1,090 | - 890 | - 1,980 |
| c. Gostyngiad mewn grantiau penodol | 585 | 205 | 790 |
| d. Blaenoriaethau lleol | 2,013 | 1,609 | 3,622 |
| e. Arall | 1,925 | 1,729 | 3,654 |
| Cyfanswm Ysgolion | 16,654 | 11,912 | 28,567 |

| | Pwysau a Ragfynegir | | |
|---|---|---|---|
| | **2023-24 £000oedd** | **2024-25 £000oedd** | **Cyfanswm £000oedd** |
| **C. Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | |
| Pwysau chwyddiant cyflog | 51,858 | 23,918 | 75,776 |
| Pwysau Costau Comisiynu - Oedolion | 86,939 | 55,201 | 142,140 |
| Pwysau Costau Comisiynu - Plant | 14,066 | 10,449 | 24,515 |
| Pwysau chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog | 20,712 | 12,423 | 33,135 |
| Ffioedd / Taliadau chwyddiant (positif) | - 2,677 | - 2,192 | - 4,869 |
| **Pwysau chwyddiant (sefydlog)** | 170,898 | 99,799 | 270,697 |
| **Pwysau ar gyllideb** | | | |
| a. Pwysau mewn perthynas â galw | 3,828 | 4,628 | 8,456 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gofal Cartref (gan gynnwys byw â chymorth) | 7,662 | 7,776 | 15,438 |
| Lleoliadau Preswyl | 11,886 | 8,955 | 20,841 |
| Arall | 12,604 | 8,103 | 20,707 |
| | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 2,500 | 1,770 | 4,270 |
| Gofal Cartref | 1,309 | - 685 | 624 |
| Lleoliadau Preswyl | 22,688 | 8,277 | 30,965 |
| Gofal Maeth | 5,352 | 3,870 | 9,222 |
| Arall | 5,386 | 5,872 | 11,258 |
| | | | |
| b. Pwysau cyllido cyfalaf | - | - | - |
| c. Gostyngiad mewn grantiau penodol | 5,914 | 1,646 | 7,560 |
| d. Blaenoriaethau lleol | 4,418 | 1,651 | 6,069 |
| e. Arall | 1,699 | - | 1,699 |
| | | | |
| **Cyfanswm Pwysau Cyllideb** | 85,246 | 51,863 | 137,109 |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cymdeithasol** | 256,144 | 151,662 | 407,806 |
| | | | |
| **Cyfanswm Pwysau (gan gynnwys ysgolion a Gwasanaethau Cymdeithasol)** | **784,220** | **439,248** | **1,223,468** |
| | | | |
| **D. Newidiadau o ran cyllid** | | | |
| Treth y Cyngor (net o CTRS) | 59,092 | 61,879 | 120,971 |
| Grant Cynnal Refeniw | 169,632 | 123,125 | 292,757 |
| Defnyddio cronfeydd wrth gefn | 7,894 | - 490 | 7,404 |
| | | | |
| | 236,618 | 184,514 | 421,132 |
| | | | |
| **Cyfanswm (A+B+C-D)** | **547,602** | **254,734** | **802,336** |

# Eitem 5

## Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

**Dyddiad: 12 Ionawr 2023**

**Amser: 10.45am – 12.15pm**

**Teitl: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24**

## Cyflwyniad

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cynlluniau gwariant ar gyfer 2023-24 sy'n gwneud newidiadau i'r cyllidebau dangosol a gyhoeddwyd fel rhan o gyllideb ddrafft 2022-23. Yn y papur hwn cyflwynir tystiolaeth i'r Pwyllgor ynghylch cynigion cyllidebol ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol yn ymwneud â chyllidebau Llywodraeth Leol o fewn Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol fel y'u hamlinellir yn y Gyllideb Ddrafft a gyflwynwyd ar 13 Rhagfyr 2022.

Yn Atodiad A ceir dadansoddiad o'r ffigurau perthnasol o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) Cyllid a Llywodraeth Leol yn ôl Maes Rhaglen Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb. Adlewyrchir y ffigurau hyn yn y tabl isod.

## Tablau Ariannol

**Tabl 1: Trosolwg o newidiadau i dablau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb**

| | 2023-24 Cyllideb Ddangosol £'000 | 2023-24 Cyllideb Ddrafft £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 4,346,119 | 4,829,952 | 483,833 | 11.1% |
| Heb Fod yn Arian Parod | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **4,346,119** | **4,829,952** | **483,833** | **11.1%** |
| Cyfalaf | 222,000 | 222,000 | 0 | 0 |
| Trafodiadau Ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **222,000** | **222,000** | **0** | **0** |

## Dyraniadau cyllidebol

Gwnaed tri newid allweddol fel rhan o'r gyllideb ddrafft hon:

- Mae rhai cyllidebau refeniw o fewn y MEG wedi cael eu hailflaenoriaethu ac mae llinellau sylfaen y cyllidebau hyn wedi gostwng; roedd y gostyngiadau hyn yn werth £1.709m i gyd ac roedd £609k o'r rhain yn effeithio ar gyllidebau sy'n cefnogi Llywodraeth Leol. Nid oedd angen torri cyllidebau cyfalaf fel rhan o'r ymarfer hwn. Roedd hyn yn rhan o ymarfer ehangach gan Lywodraeth Cymru i ailflaenoriaethu cyllidebau er mwyn targedu adnoddau prin at y mannau lle roedd eu hangen fwyaf.
- Gwnaed dyraniadau o gronfeydd wrth gefn;
- Gwnaed rhywfaint o waith ailflaenoriaethu o fewn y MEG er mwyn ailddyrannu cyllidebau refeniw a chyfalaf am flwyddyn yn unig.

Caiff y newidiadau hyn i gyd eu dangos yn y tablau isod ac yn nhablau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2022.

Cafodd y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol y dyraniadau canlynol o gronfeydd wrth gefn fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24:

**Tabl 2: Dyraniadau a wnaed drwy Gyllideb Ddrafft 2023-24**

| Dyraniad | 2023-24 £'000oedd | 2024-25 £'000oedd |
|---|---|---|
| Grant Cynnal Refeniw (Gan gynnwys cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol) | 150,000 | 150,500 |
| Ardrethi Busnes | 292,000 | 144,500 |
| Wcráin | 40,000 | 20,000 |
| Cost Benthyca | 897 | 4,496 |
| Codiad ar sail chwyddiant | 2,000 | 2,000 |
| Addasiadau heb fod yn arian parod i ACC, AGC ac AGIC | 124 | 137 |
| **Cyfanswm y dyraniad** | **485,021** | **321,633** |

Caiff dyraniadau refeniw eu gwrthbwyso gan addasiad o £215m i'r llinell ardrethi annomestig o dan Wariant a Reolir yn Flynyddol yn 2023-24. Mae'r addasiad hwn yn cynnwys y lleihad i'r swm dosbarthadwy ers y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24 a 2024-25, ac yn debydu'r Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch a ddarperir ar gyfer 2023-24.

Bwriadwyd i'r codiad o £2m ar sail chwyddiant helpu â rhai o'r effeithiau chwyddiant a deimlir y tu allan i'r setliad llywodraeth leol. Cafodd y codiad o £2m ei ddyrannu ar draws y MEG fel a ganlyn:

**Tabl 3: Dyraniadau'r codiad o £2m ar sail chwyddiant ar gyfer y MEG**

| Dyraniad | 2023-24 £'000oedd | 2024-25 £'000oedd |
|---|---|---|
| Cyllid ar gyfer y Rhaglen Caffael Masnachol i roi cyllid ar gyfer y Ganolfan Ragoriaeth Caffael a'r Rhaglen Sgiliau a Gallu Caffael. | 907 | 907 |

| Dyraniad | 2023-24 £’000oedd | 2024-25 £’000oedd |
|---|---|---|
| Awdurdod Refeniw Cymru mewn perthynas â phwysau cyflogau, pwysau chwyddiannol a phwysau arall. | 941 | 941 |
| Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol o ganlyniad i bwysau cynyddol o ran adnoddau a chwyddiant yn sgil newidiadau i ymarfer sy'n ymwneud ag arolygon etholiadol a chymunedol a gwaith sylweddol i baratoi ar gyfer diwygiadau i'r Senedd. | 152 | 152 |
| **Cyfanswm y dyraniad** | **2,000** | **2,000** |

O ganlyniad i'r cyd-destun economaidd a'r pwysau a deimlir ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i ymateb i bwysau chwyddiant, costau byw a chyflogau yn ogystal â chyflawni ein Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol, gofynnwyd i bob gweinidog â phortffolio nodi arbedion refeniw o fewn ei MEG i gefnogi blaenoriaethau trawslywodraethol. Llwyddwyd i gyrraedd targed o £100m o arbedion ar draws Llywodraeth Cymru gyda Chyllid a Llywodraeth Leol yn cyfrannu £1.709m at y targed hwn. Cyflawnwyd hyn drwy wneud arbedion cylchol yn y meysydd canlynol:

**Tabl 4: Arbedion cylchol a nodwyd o fewn y MEG**

| Arbediad a nodwyd | 2023-24 £’000oedd | 2024-25 £’000oedd |
|---|---|---|
| Buddsoddi i Arbed – ystyriwyd ei fod yn fforddiadwy am fod llai o gytundebau benthyca yn yr arfaeth. | 750 | 750 |
| e-Gaffael – caiff yr arbediad ei sicrhau drwy gyfnewid contract am un sy'n cynnig gwell gwerth am arian. | 350 | 350 |
| Gwella a Chymorth – mae prosiect pontio Ewropeaidd â chyllideb o £1.2m bellach wedi dod i ben. Caiff y cyllid sy'n weddill ei ddefnyddio er mwyn helpu i ddatgarboneiddio'r ystad llywodraeth leol. Bydd yr arbediad hwn yn gostwng lefel y cymorth refeniw yn 2023-2024 a fyddai ar gael fel arall i awdurdodau lleol er mwyn datblygu achosion busnes/prosiectau mawr i ddatgarboneiddio eu hystad gorfforaethol.Efallai mai'r effaith fyddai arafu gwaith yn y maes hwn oni bai bod awdurdodau lleol yn cyllido eu hunain gan adlewyrchu eu hymrwymiadau eu hunain a'r potensial i wneud arbedion hirdymor.Caiff hyn ei liniaru gan y gwaith sy'n mynd rhagddo gydag Ystadau Cymru ar resymoli ystadau a rhaglen CLlLC sy'n cefnogi gwaith Llywodraeth Leol ar ei hymrwymiadau Sero Net. | 609 | 609 |
| **Cyfanswm yr arbedion a wneir yn y gyllideb ddrafft** | **1,709** | **1,709** |

Mae rhai cyllidebau yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol wedi cael eu hailbroffilio yn 2023-24 lle gellid nodi arbedion i'w cyflawni mewn cyfnod penodol er mwyn cefnogi pwysau mewn rhannau eraill o'r MEG. Fel rhan o'r ymarfer hwn, penderfynwyd ailbroffilio cyllidebau fel a ganlyn o fewn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol am flwyddyn yn unig:

**Tabl 5: Cyllidebau a addaswyd at ddiben arall o fewn y MEG am flwyddyn yn unig (2023-24)**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Addasiad at ddiben arall am flwyddyn yn unig £'000 |
|---|---|
| **Trawsnewid a Deddfwriaeth -** bydd toriad i'r gyllideb hon yn golygu y bydd angen lleihau rhywfaint o weithgarwch neu ei ohirio nes 2024-25. | (613) |
| **Cymorth Ariannol Brys -** dyraniad ar gyfer costau adfer y bydd awdurdodau lleol yn mynd iddynt o ganlyniad i lifogydd mis Chwefror 2020. | 491 |
| **Polisi etholiadau** a gyflawnir drwy leihau gweithgarwch am flwyddyn yn unig. | (1,000) |
| **Awdurdod Refeniw Cymru -** pwysau sy'n ymwneud â gweithredu a pharhau i gyflawni gweithgareddau amrywiol. | 1,122 |
| **Buddsoddi i Arbed (Cyfalaf) –** ystyriwyd ei fod yn fforddiadwy | (195) |
| **Awdurdod Refeniw Cymru (Cyfalaf) –** pwysau sy'n ymwneud ag adnewyddu trwyddedau yn ogystal â gweithgarwch arall. | 195 |
| **Cyfanswm** | **0** |

## Setliad Llywodraeth Leol

Er gwaethaf y pwysau sylweddol ar awdurdodau lleol a nodwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, nid oedd ein setliad gan Lywodraeth y DU wedi ein galluogi i leddfu'r pwysau hwn sy'n deillio o chwyddiant a chynnydd yn y galw am wasanaethau yn llawn. Mewn ymgais i warchod gwasanaethau cyhoeddus gymaint â phosibl, nid ystyriwyd unrhyw doriadau i'r setliad llywodraeth leol fel rhan o ymarfer ehangach Llywodraeth Cymru i addasu cyllidebau at ddibenion eraill.

Yn 2022-23, cynyddodd y setliad Llywodraeth Leol £437miliwn (9.4%) ar sail gyfatebol i £5.1 biliwn er mwyn cefnogi gwasanaethau rheng flaen. Fel rhan o Gyllideb 2022-23, cynlluniwyd cynnydd pellach i'r setliad ar gyfradd o 3.5% (£177m) yn 2023-24 a 2.4% yn 2024-25.

Mae codiadau sydyn mewn prisiau ynni a chwyddiant wedi effeithio ar holl wasanaethau awdurdodau lleol, gan gynnwys eu dau faes gwasanaeth mwyaf, sef ysgolion a gofal cymdeithasol. Ar yr un pryd, mae'r galw mewn llawer o feysydd gwasanaeth wedi cynyddu yn gyffredinol.

Caiff ysgolion yng Nghymru eu cyllido'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol – caiff y cyllid ar gyfer ysgolion ei ddarparu'n bennaf drwy'r setliad llywodraeth leol. Mae cyllideb addysg Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi gwariant mewn ysgolion ac ar ysgolion, athrawon a rhaglenni addysg ehangach, gan gynnwys prydau ysgol am

ddim, y broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd, hyfforddiant athrawon a chefnogaeth i helpu dysgwyr ar ôl y pandemig.

O ganlyniad i benderfyniadau a wnaed ynghylch gwariant ar addysg yn Lloegr, derbyniodd Cymru gyllid ychwanegol yn Natganiad yr Hydref. Mae'r cyllid hwn i gyd yn cael ei roi i lywodraeth leol drwy gynyddu'r setliad a thrwy'r gyllideb addysg.

Wrth wneud penderfyniadau am lefel y cyllid i lywodraeth leol, rwyf wedi ymateb i'r angen i gefnogi gwasanaethau rheng flaen allweddol. Yn benodol, rwyf wedi cynnwys cyllid i alluogi awdurdodau i barhau i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal.

O ganlyniad i'r penderfyniadau rwyf wedi'u gwneud, rwyf yn darparu £227m yn ychwanegol yn 2023-24 a £268m yn 2024-25 i'r setliad llywodraeth leol; mae hyn yn adeiladu ar y £0.75bn a amlinellwyd gennym hyd at 2024-25 fel rhan o'n hadolygiad o wariant yn 2022.

## Pecyn rhyddhad ardrethi annomestig

Bydd pob busnes yng Nghymru yn cael budd o'r pecyn cymorth ardrethi annomestig gwerth £460m y byddwn yn ei ddarparu dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Bydd y pecyn hwn yn ychwanegol at ein cynlluniau rhyddhad parhaol sy'n darparu tua £240m o ryddhad i dalwyr ardrethi ledled Cymru bob blwyddyn.

Byddwn yn parhau i roi cymorth i'r sectorau hynny y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt yn fwyaf uniongyrchol drwy gynllun rhyddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch 2023-24. Bydd y cynllun hwn yn darparu mwy na £140m o ryddhad ardrethi annomestig i fusnesau cymwys.

Bydd talwyr ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch yn cael rhyddhad ardrethi annomestig o 75% drwy gydol 2023-24. Fel y cynllun tebyg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, bydd cynllun Llywodraeth Cymru yn cynnwys cap o £110,000 fesul busnes yng Nghymru. Mae ein dull yn sicrhau y bydd busnesau yng Nghymru yn cael cymorth tebyg i'r cymorth a ddarperir mewn rhannau eraill o'r DU.

Yn ogystal â'r cynllun rhyddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch, caiff y lluosydd ardrethi annomestig yng Nghymru ei rewi yn 2023-24. Bydd hyn yn cefnogi pawb sy'n talu ardrethi yng Nghymru am gost amcangyfrifedig o fwy na £200m dros y ddwy flynedd nesaf.

Daw'r rhestr ardrethi annomestig nesaf i rym ar 1 Ebrill 2023, ar ôl ailbrisio. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi rhyddhad trosiannol i bawb y bydd eu hatebolrwydd yn cynyddu mwy na £300 o ganlyniad i ailbrisio. Caiff unrhyw gynnydd i atebolrwydd ardrethi annomestig o ganlyniad i ailbrisio ei gyflwyno'n raddol dros ddwy flynedd.

Bydd talwr ardrethi yn talu 33% o'i atebolrwydd ychwanegol yn y flwyddyn gyntaf (2023-24) a 66% yn yr ail flwyddyn (2024-25), cyn cyrraedd ei atebolrwydd llawn yn y drydedd flwyddyn (2025-26). Mae Llywodraeth Cymru yn darparu £113m dros

ddwy flynedd i gyllido'r rhyddhad trosiannol hwn, gan gefnogi pob rhan o'r sylfaen drethu drwy gynllun trosiannol cyson a syml.

Rydym yn ymrwymedig i helpu busnesau i adfer ar ôl effeithiau'r pandemig a'u helpu drwy'r argyfwng costau byw presennol, er mwyn sicrhau bod gan Gymru economi lewyrchus o hyd.

## Wcráin

Fel Llywodraeth, gwnaethom ymrwymiad clir i groesawu pobl sy'n ffoi rhag y gwrthdaro yn Wcráin. Yn wreiddiol gwnaethom sefydlu ein cynllun uwch-noddwr i noddi 1,000 o bobl o Wcráin yn uniongyrchol – hyd yma, rydym wedi llwyddo i gefnogi bron i 3,000 o bobl sydd wedi cyrraedd Cymru drwy'r llwybr uwch-noddwr. Mae hyn yn dangos yn glir bod Cymru yn Genedl Noddfa.

Rydym wedi cyllido ein cynllun uwch-noddwr, gan gynnwys llety a chymorth cofleidiol, o'n cyllideb ein hunain. Byddwn yn parhau i wneud hyn yn 2023-24 ac rydym wedi ymrwymo £40m arall at y diben hwn er mwyn sicrhau bod gan bobl sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin le diogel a noddfa yng Nghymru o hyd. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn sicrhau y gall awdurdodau lleol barhau i ddarparu gwasanaethau i gefnogi ein cynllun. Nid yw Llywodraeth y DU wedi ymrwymo unrhyw gyllid i gynllun Cartrefi i Wcráin yn 2023-24.

## Rhaglen Lywodraethu

Mae'r Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Yn unol ag egwyddorion rheoli'r gyllideb Llywodraeth Cymru, mae dyraniadau a wnaed yn yr Adolygiad o Wariant 2022-23 i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau hyn wedi targedu ymyriadau sy'n fforddiadwy ac yn cynnig gwerth am arian. Nid oes unrhyw ddyraniadau newydd wedi cael eu gwneud i gefnogi ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu drwy gyllideb ddrafft 2023-24. Mae manylion am ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb sy'n eu cefnogi ar gael isod.

**Ceisio diwygio'r dreth gyngor er mwyn sicrhau system decach a mwy graddoledig -** Cyhoeddais fy nghynlluniau i ddiwygio system y dreth gyngor ar 7 Rhagfyr 2021 a lansiais ymgynghoriad Cam 1 ar 12 Gorffennaf. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi. Darperir ar gyfer y gwaith hwn drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Ymchwil a Dadansoddi Trethiant Lleol.

**Dadlau dros ddatganoli trethi'n glir ac yn sefydlog -** Mae'r ddwy dreth leol, sef y dreth gyngor ac ardrethi annomestig, yn rhan annatod o'r system gyllid llywodraeth leol yng Nghymru. Ochr yn ochr â'm cynlluniau i ddiwygio system y dreth gyngor, amlinellais fy nghynlluniau i ddiwygio'r system ardrethi annomestig ar 29 Mawrth a lansiais ymgynghoriad ar y cynigion ar 21 Medi. Darperir ar gyfer y gwaith hwn hefyd drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Ymchwil a Dadansoddi Trethiant Lleol.

**Cryfhau ymreolaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau -** Caiff yr ymrwymiad hwn yn y

Rhaglen Lywodraethu ei gyflawni drwy'r cyllid ar gyfer gwelliannau i lywodraeth leol a arweinir gan y sector, gan gynnwys trawsnewid digidol (sydd hefyd yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyflawni'r Strategaeth Ddigidol), drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid a Deddfwriaeth. Caiff gwaith i wella rheolaeth ariannol a systemau llywodraethu Cynghorau Cymuned ei ariannu gan Linell Wariant yn y Gyllideb Cynghorau Tref a Chymuned a dyraniad o Linell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid a Deddfwriaeth. Ariennir unrhyw ymgysylltu uniongyrchol â rhaglenni cymorth ac ymyrryd statudol sy'n benodol i awdurdodau lleol drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Gwella a Chymorth. Ymhlith y gwaith arall a wnaiff gyfrannu mae ein gwaith diwygio ariannol a gwaith ar ddiwygio'r dreth gyngor; a chynyddu cyfranogiad democrataidd. Ariennir hyn drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid a Deddfwriaeth a Llinell Wariant yn y Gyllideb Ymchwil a Dadansoddi Trethiant Lleol.

**Lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau leol -** Mae ymarfer cwmpasu gorchwyl a gorffen ar waith, gan weithio'n agos gyda llywodraeth leol i archwilio rhwystrau canfyddedig a meysydd allweddol y nodir eu bod yn feysydd lle ceir baich gweinyddol diangen. Y bwriad yw nodi cyfleoedd i newid prosesau a gofynion presennol a chytuno ar gyfres o egwyddorion sylfaenol er mwyn helpu i ddiffinio'r angen am orbenion gweinyddol a gorbenion biwrocrataidd eraill yn y dyfodol a ffurf y gorbenion hynny. Nid oes unrhyw oblygiadau cyllido i'r ymarfer cwmpasu hwn.

**Archwilio a datblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol er mwyn sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod -** Fel rhan o'r dull tair elfen a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ym mis Gorffennaf 2021, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru haf diwethaf ar newidiadau posibl i drethi lleol er mwyn helpu awdurdodau lleol i reoli effaith ail gartrefi a llety hunanddarpar yn eu hardaloedd. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ar 2 Mawrth cyhoeddais y cynlluniau i ddiwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Ymchwil a Dadansoddi Trethiant Lleol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gweithredu unrhyw newidiadau a'r dadansoddiadau ychwanegol o wybodaeth am ail gartrefi a llety hunanddarpar o fewn y sylfaen drethu leol

**Diwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd -** Yn 2022-23, gwnaethom gynnal cynlluniau peilot i ddefnyddio technoleg ddigidol er mwyn rhoi opsiynau pleidleisio hyblyg i bleidleiswyr mewn pedwar awdurdod lleol a chwblhawyd gwaith allgymorth i annog pobl i gofrestru ac ymgysylltu. Cyrhaeddodd y llifau gwaith hyn eu pen llanw gydag etholiadau lleol mis Mai 2022. Mae gwerthusiad o'r cynlluniau peilot gan y Comisiwn Etholiadol a'r gwaith allgymorth gan rwydwaith o sefydliadau wedi dod i law ac mae'n llywio cam nesaf ein gwaith cyn ein cyfres arfaethedig nesaf o etholiadau datganoledig yn 2026 a 2027. Ym mis Hydref 2022, gwnaethom gyhoeddi Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol, gan gynnwys cynigion ynghylch gwybodaeth i bleidleiswyr ac ymgysylltu, gwneud y system etholiadol yn fwy hygyrch drwy drefniadau cofrestru awtomatig, a rhai newidiadau strwythurol er mwyn cefnogi trefniadau gweinyddol gwell. Gwnaethom hefyd ddatblygu cam nesaf ein cymorth ymgysylltu uniongyrchol fel cynnig grant aml-flwyddyn newydd. Caiff y gwaith hwn ei wneud ar y cyd â gwaith i ehangu'r rhaglen Mynediad i Swyddi Etholedig a chynyddu amrywiaeth ym maes democratiaeth a

gwaith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar ddiffinio, mesur a monitro iechyd democrataidd. Ariennir y gwaith hwn drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Polisi Etholiadau a chyllid a roddir i brif gynghorau drwy'r Grant Cynnal Refeniw, sydd hefyd yn cydnabod costau gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**Ehangu ein rhaglen Mynediad i Swyddi Etholedig -** Roedd y gronfa beilot Mynediad i Swyddi Etholedig ar gael i ymgeiswyr ag anableddau cyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 a'r etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Mae'n cael ei gwerthuso'n ffurfiol ar hyn o bryd ond yr arwyddion cynnar yw bod y Gronfa yn cael ei gwerthfawrogi a'i chroesawu. Defnyddir yr hyn a ddysgir o'r gwerthusiad a gwaith ymchwil arall diweddar i ystyried sut y gellid gwella ac ehangu'r gronfa a mathau eraill o gymorth posibl i gwmpasu pobl â nodweddion gwarchodedig eraill. Ariennir y gwaith hwn drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid a Deddfwriaeth.

**Cyflawni'r Bennod Llywodraeth Leol yn y Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol** - Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i greu Cymru wrth-hiliol. Fel rhan o hyn byddaf yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol a llywodraethu ar gyfer llywodraeth leol yn hyrwyddo camau gweithredu a phenderfyniadau gwrth-hiliol. Rwy'n cyflwyno amrywiaeth o newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol er mwyn sicrhau y llywodraethir llywodraeth leol o fewn fframwaith statudol sy'n cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn hyrwyddo gwrth-hiliaeth. Bydd hyn hefyd yn galluogi llywodraeth leol i adolygu ei pholisïau recriwtio ac adnoddau dynol mewnol ei hun, a'i phrosesau cwyno, er mwyn sicrhau eu bod yn wrth-hiliol. Ariennir y gwaith hwn drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid a Deddfwriaeth.

**Sicrhau bod gan bob rhanbarth yng Nghymru ddull effeithiol ac atebol yn ddemocrataidd o ddatblygu economïau’r dyfodol** - Darparwyd cyllid grant penodol yn 2021-2022 er mwyn helpu rhanbarthau i roi trefniadau ar waith i sefydlu'r trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer eu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a phontio ar draws drefniadau llywodraethu rhanbarthol a fodolai eisoes fel y bo'n briodol.

Adlewyrchir hyn nawr yn y cyllid craidd a geir drwy'r Setliad Llywodraeth Leol heb ei neilltuo, er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod sicrhau cydweithio rhwng awdurdodau lleol a chefnogi hynny yn rhan o fodel gweithredu craidd llywodraeth leol.

**Newid y fframwaith perfformiad ar gyfer llywodraeth leol er mwyn galluogi gwell arloesedd, tryloywder a pherchenogaeth leol -** Mae hyn yn ymwneud â gweithredu'r drefn perfformiad a llywodraethu newydd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Cefnogir awdurdodau lleol i gynnal hunanasesiadau ac asesiadau panel drwy Raglen Gwella a Chymorth llywodraeth leol a arweinir gan y sector, a ariennir drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid a Deddfwriaeth. Ariennir unrhyw ymgysylltu uniongyrchol â rhaglenni cymorth ac ymyrryd statudol sy'n benodol i awdurdodau lleol drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Gwella a Chymorth.

## Gwariant ataliol o fewn y portffolio hwn

Nid yw'r cyllid a ddarperir drwy'r grant cynnal refeniw wedi'i neilltuo; mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu sut i'w flaenoriaethu. Drwy ddarparu'r swm sylweddol hwn o arian heb ei neilltuo caiff awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i gynllunio, ariannu a darparu eu gwasanaethau yn y ffordd sy'n gweithio orau i'w poblogaethau lleol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau er mwyn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd. Bydd y cyllid hwn yn atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

## Asesiad Effaith Integredig Strategol

Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol (yr Asesiad) yn parhau i amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwario. Dim ond un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddwyd fel rhan o'n Cyllideb Ddrafft ydyw, gydag effaith penderfyniadau gwario yn cael ei hamlinellu fel rhan o'r prif naratif ym mhennod pedwar, a ategir gan yr Asesiad yn Atodiad A.Yn y Gyllideb Ddrafft eleni, rydym wedi ailflaenoriaethu cyllid o'n cynlluniau presennol er mwyn aildargedu ein hadnoddau prin at y meysydd lle ceir yr angen mwyaf, er mwyn sicrhau bod pob punt a fuddsoddir yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf a'n galluogi i warchod meysydd allweddol. Cydnabyddwn y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar y meysydd hynny lle ailflaenoriaethwyd cyllid. Caiff mwy o fanylion am y dewisiadau hyn eu hamlinellu fel rhan o ymatebion y Gweinidogion unigol i bwyllgorau craffu perthnasol y Senedd; bydd hyn yn rhoi darlun manylach o'r modd y mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft wedi effeithio ar grwpiau gwahanol.

Rydym hefyd yn parhau i amlinellu'r camau rydym yn eu cymryd i ddiwygio gwelliannau i broses y gyllideb a threthi fel rhan o'n Cynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Eleni, rydym wedi cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb er mwyn ystyried sut i gynnal yr Asesiad Effaith Integredig Strategol; mae hyn wedi arwain at rai newidiadau o fewn yr Asesiad a gyhoeddir fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon. Mae rhagor o gamau tymor hwy yn cael eu hystyried drwy barhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori i adolygu ein dull o asesu effeithiau penderfyniadau cyllidebol fel rhan o Gynllun Gwella'r Gyllideb.

Fel rhan o'r gyllideb ddrafft hon, rydym wedi gwneud dyraniadau i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y GIG a llywodraeth leol; rydym hefyd wedi gwneud dyraniadau i gefnogi unigolion agored i niwed y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt, drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, y Grant Datblygu Disgyblion a gwasanaethau digartrefedd.

O fewn fy mhortffolio fy hun, rwyf yn falch o allu rhoi codiad i awdurdodau lleol drwy'r setliad a darparu cymorth ychwanegol drwy ryddhad ardrethi annomestig. Fodd bynnag, bu'n rhaid canfod arbedion mewn meysydd eraill er mwyn gallu targedu

gwariant ar draws Llywodraeth Cymru at y meysydd lle mae ei angen fwyaf. Mae hyn wedi golygu lleihad cylchol o £1.7m o fewn fy mhortffolio fy hun. Rwyf wedi nodi'r arbedion hyn yn nhabl 4 uchod.

## Cymorth i'r rhai y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio fwyaf arnynt

Bydd pobl sy'n ei chael hi'n anodd fforddio llety neu fwyd yn troi at wasanaethau lleol am gymorth. Bydd ein cymorth ychwanegol i awdurdodau lleol drwy'r setliad heb ei neilltuo yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael i gefnogi'r rhai y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt.

## Newid Hinsawdd a Chymru Sero Net

Cynlluniwyd y byddai cyllideb gyfalaf llywodraeth leol yn cynyddu £50m rhwng cyllideb ddrafft 2022-23 a chyllideb ddangosol 2023-24.  Caiff £20m o'r cynnydd hwn ei ddefnyddio'n benodol i fynd i'r afael â datgarboneiddio a chefnogi Cymru Sero Net. Mae cyllid refeniw ar gael hefyd o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Gwella a Chymorth a Llinell Wariant yn y Gyllideb Ystadau Cymru er mwyn helpu â chynlluniau i ddatgarboneiddio ystadau Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru.

## Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phobl sy'n cyrraedd o Wcráin

Nid oes dyraniadau yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol i gefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac ni fu unrhyw drosglwyddiadau penodol i'r Grant Cynnal Refeniw mewn perthynas â'r cymunedau hyn.

O fewn y MEG Addysg a'r Gymraeg, mae £11m o gyllid grant ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer dysgwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, sy'n helpu plant a phobl ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, gan gynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, i gael addysg a chyfleoedd a darparu canlyniadau cyfartal.

Darperir y grant i awdurdodau lleol yng Nghymru yn seiliedig ar nifer y dysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol o fewn yr awdurdod lleol. Caiff y grant ei ddefnyddio'n gyffredinol i gefnogi dysgwyr o'r cefndiroedd hyn, ond mae awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio hefyd i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches â Saesneg fel Iaith Ychwanegol neu Gymraeg fel Iaith Ychwanegol o bosibl. Defnyddiwyd y grant hefyd i gefnogi'r rhai sy'n cyrraedd o Wcráin ac Affganistan.

Yn 2022-23, defnyddiwyd Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymorth Ariannol Brys yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol i dalu costau ein hymateb brys i'r argyfwng dyngarol yn Wcráin. Defnyddiwyd y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon i dalu'r costau a oedd yn gysylltiedig â phobl a gyrhaeddodd drwy'r llwybr uwch-noddwr, gan gynnwys cost

llety cychwynnol, cymorth cofleidiol, y ganolfan gyswllt a chanolfannau cyrraedd. Roedd tariff cyffredinol am bob unigolyn a gyrhaeddodd a thariff addysg ar gyfer plant rhwng 2 a 17 oed, a gyllidwyd gan Lywodraeth y DU, yn daladwy i awdurdodau lleol drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon hefyd.

O fewn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, y gyllideb gyfalaf ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn 23-24 yw £3.19m sy'n union yr un peth â'r gyllideb ddangosol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r gyllideb yn cwmpasu gwaith i ddatblygu safleoedd newydd, ehangu safleoedd a phrosiectau adnewyddu ar safleoedd sy'n eiddo i awdurdodau lleol ledled Cymru.

**Atodiad 1**

| EXTRACT FROM FINANCE AND LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **RESOURCE** | | | | |
| **Budget Expenditure Line** | **2023-24 Indicative Budget** | **2023-24 Draft Budget 2023-24** | **Change** | **% Change** |
| | **£000s** | **£000s** | **£000s** | **£000s** |
| Local Govt General Revenue Funding | 4,169,557 | 4,498,298 | 328,741 | 7.9% |
| Non-Domestic Rates Rates Relief | 27,700 | 143,900 | 116,200 | 4.2% |
| Police General Revenue Funding | 112,349 | 112,448 | 99 | 0.1% |
| Local Govt PFI Revenue Consequences | 2,728 | 2,728 | - | 0.0% |
| Transformation & Legislation | 7,760 | 7,519 | (241) | -3.1% |
| Non-Domestic Rates Collection Costs | 5,172 | 5,172 | - | 0.0% |
| Emergency Financial Assistance | 1 | 40,492 | 40,491 | 40491.0% |
| **Action: Funding Support for Local Government** | **4,325,267** | **4,810,557** | **485,290** | **11.2%** |
| Valuation Office Agency Services | 8,896 | 8,896 | - | 0.0% |
| Valuation Tribunal for Wales | 1,074 | 1,074 | - | 0.0% |
| Local Taxation Research & Analysis | 4,300 | 4,300 | - | 0.0% |
| **Action: Valuation Services** | **14,270** | **14,270** | **-** | |
| **SPA: Local Government Funding** | **4,339,537** | **4,824,827** | **485,290** | |
| Sponsorship of the Local Democracy and Boundary | 598 | 750 | 152 | 25.4% |
| Expenditure to Promote Local Democracy | 126 | 126 | - | 0.0% |
| Election Policy | 2,500 | 1,500 | (1,000) | -40.0% |
| **Action: Building Local Democracy** | **3,224** | **2,376** | **(848)** | **-26.3%** |
| Improvement & Support | 1,550 | 941 | (609) | -39.3% |
| **Action: Local Government Improvement** | **1,550** | **941** | **(609)** | **-39.3%** |
| Academi Wales | 1,134 | 1,134 | - | 0.0% |
| **Action: Academi Wales** | **1,134** | **1,134** | **-** | **0.0%** |
| Community and Town Councils | 144 | 144 | - | 0.0% |
| Public Services Boards | 530 | 530 | - | 0.0% |
| **Action: Supporting Collaboration and Reform** | **674** | **674** | **-** | **0.0%** |
| **SPA: Improving Services, Collaboration & Democracy** | **6,582** | **5,125** | **(1,457)** | **-22.1%** |
| **EXTRACT FROM FINANCE AND LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)** | **4,346,119** | **4,829,952** | **483,833** | **11.1%** |

| EXTRACT FROM FINANCE AND LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CAPITAL** | | | | |
| **Budget Expenditure Line** | **2023-24 Indicative Budget** | **2023-24 Draft Budget 2023-24** | **Change** | **% Change** |
| | **£000s** | **£000s** | **£000s** | **£000s** |
| Local Govt General Capital Funding | 200,000 | 200,000 | - | 0% |
| City & Growth Deals | 22,000 | 22,000 | - | 0% |
| **Action: Local Government General Capital Funding** | **222,000** | **222,000** | **-** | **0%** |
| **SPA: Local Government General Cpaital Funding** | **222,000** | **222,000** | **-** | **0%** |
| **EXTRACT FROM FINANCE AND LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)** | **222,000** | **222,000** | **-** | **0%** |

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**12 Ionawr 2023 – clawr y papurau i'w nodi**

| **Rhif y papur** | **Mater** | **Oddi wrth** | **Gweithredu** |
|---|---|---|---|
| Papur 3 | Amserlen y Pwyllgorau | Y Llywydd at yr Aelodau i gyd | I'w nodi |
| Papur 4 | Penodiadau Cyhoeddus | Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | I'w nodi |
| Papur 5 | Ystyried goblygiadau ariannol Biliau gan y Senedd | Y Prif Weinidog a'r Pwyllgor Cyllid | I'w nodi |
| Papur 6 | Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 | Y Pwyllgor Cyllid at Gadeiryddion y Pwyllgorau i gyd | I'w nodi |
| Papur 7 | Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 | Cymorth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru at y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol | I'w nodi |
| Papur 8 | Anghydraddoldebau iechyd meddwl | Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; a'r Pwyllgor | I'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Llywodraeth Leol a Thai | |
| Papur 9 | Darparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog â Chyfrifoldeb am Ffoaduriaid o Wcráin, Llywodraeth yr Alban, at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol | I'w nodi |
| Papur 10 | Diogelwch adeiladau | Y Gweinidog Newid Hinsawdd | I'w nodi |
| Papur 11 | Diogelwch adeiladau | Grŵp Welsh Cladiators | I'w nodi |
| Papur 12 | Digartrefedd | Shelter Cymru | I'w nodi |

**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

Yr holl Aelodau
Drwy e-bost

1 Rhagfyr 2022

Annwyl Aelod,

**Blaenoriaethu Busnes Pwyllgorau**

Yng nghyfarfodydd diweddar Fforwm y Cadeiryddion, mae pryderon wedi cael eu codi bod lleiafrif o Aelodau, ar adegau, yn blaenoriaethu ymrwymiadau eraill ar draul busnes eu pwyllgorau.

Cafodd Canllawiau diwygiedig ar Drafodion Rhithwir a Hybrid, gan gynnwys trafodion pwyllgorau eu cylchredeg yn ddiweddar. Hoffwn atgoffa Aelodau hefyd o bwysigrwydd neilltuo amser ar gyfer busnes pwyllgorau.

Mae absenoldeb achlysurol o gyfarfodydd pwyllgorau yn rhywbeth a ragwelir yn ein trafodion, ond pan fydd Aelodau yn absennol, disgwylir iddynt anfon dirprwy ar eu rhan i osgoi tarfu ar fusnes y pwyllgorau.

Un mater, a ddisgrifiwyd gan Gadeiryddion, yw bod rhai aelodau pwyllgor yn rheolaidd yn gadael ar ddiwedd rhan gyhoeddus cyfarfod. Golyga hyn eu bod yn absennol ar gyfer unrhyw eitemau agenda preifat a drefnwyd ar gyfer diwedd cyfarfod. Mae hyn yn amharu ar waith rhai pwyllgorau.

Mae Fforwm y Cadeiryddion wedi cymeradwyo adroddiad yr Athro Diana Stirbu: Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau.

Fel rhan o'i gwaith, ystyriodd yr Athro Stirbu nodweddion effeithiolrwydd pwyllgorau. Un nodwedd sy'n codi o'i hymchwil yw:

*Mae gan bwyllgorau effeithiol Aelodau sydd wedi ymgysylltu â'u gwaith yn llawn ac maent â diddordeb ynddo. Mae'r aelodau'n barod, yn gwrando ac yn cefnogi ei gilydd mewn sesiynau pwyllgor.*

Mae Cadeiryddion Pwyllgorau yn disgwyl i aelodau pwyllgorau ymwneud yn llawn â phob agwedd ar waith eu pwyllgorau, a rhoi mwy o flaenoriaeth i'w gwaith pwyllgor nag i'w hymrwymiadau eraill am y cyfnod llawn y bydd pwyllgor yn cyfarfod (gan gynnwys unrhyw eitemau preifat a drefnwyd). Mae hyn yn hanfodol os yw pwyllgorau am gyflawni eu hamcanion mewn modd effeithiol.

Wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd aelod yn methu ag ymgysylltu'n llawn â gwaith pwyllgor am resymau dilys. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai Aelod drafod y mater â Chadeirydd y pwyllgor perthnasol. Gall Cadeirydd y pwyllgor bwyso a mesur y mater o safbwynt cefnogi'r Aelod ac o safbwynt cyflawni amcanion y pwyllgor.

Yn gywir,



**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Gadeirydd,

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Benodiadau Cyhoeddus

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cynnal ymchwiliad i benodiadau cyhoeddus. Yn ei ymgynghoriad ar graffu ar weinyddiaeth gyhoeddus yn hydref 2021, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth a argymhellodd gynnal ymchwiliad yn y maes hwn. Barnwyd bod y mater hwn yn un sydd heb gael sylw digonol ers i'r Senedd gael ei sefydlu.

Ceir manylion ein cylch gorchwyl cytunedig ar gyfer yr ymchwiliad yn Atodiad A. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai pryderon am y broses penodiadau cyhoeddus fynd y tu hwnt i'r cylch gorchwyl hwnnw. Gan hynny, byddem yn croesawu safbwyntiau a phrofiadau eich pwyllgorau ar y materion a restrir ac ar unrhyw faterion eraill sydd, yn eich barn chi, yn berthnasol i'n gwaith.

Rwy'n edrych ymlaen at glywed gennych ac yn gofyn yn garedig am i ymatebion gyrraedd erbyn dydd Gwener 27 Ionawr 2023.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Atodiad A

Mae’r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â’r broses ar gyfer penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys meysydd y gellid eu gwella i gynyddu amrywiaeth y penodiadau cyhoeddus a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae’r materion i’w hystyried yn cynnwys y canlynol:

- Rôl yr Uned Cyrff Cyhoeddus ac effeithiolrwydd ei pherthynas â byrddau cyrff cyhoeddus o ran sicrhau llywodraethu da a threfniadau penodi cyhoeddus effeithiol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gymorth parhaus i aelodau byrddau.
- Barn y cyrff corfforaethol hynny sy'n cael penodiadau cyhoeddus am y broses penodiadau cyhoeddus.
- Rôl Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.
- Beth yw’r prif rwystrau i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru? Sut mae'r rhain yn amrywio yn ôl ffactorau, gan gynnwys yn ôl:
    - Oedran
    - Rhyw
    - Ethnigrwydd
    - Anabledd
- Pa mor effeithiol yw dulliau cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer annog a chynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr?
- Ym mha ffordd y gellir gwella'r broses penodiadau cyhoeddus i gyflawni hyn?
- Sut y gall Llywodraeth Cymru greu proses penodiadau cyhoeddus fwy tryloyw ac agored?
- A oes enghreifftiau o arfer gorau mewn mannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol y dylai Cymru ddysgu oddi wrthynt?

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Peredur,

**Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau**

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'ch llythyr ar 16 Tachwedd 2022 ynglŷn â chraffu ar oblygiadau ariannol Biliau'r Llywodraeth.

Mae eich llythyr yn tynnu sylw at y pryder bod Llywodraeth Cymru wedi symud i ffwrdd o'r arfer yn y Bumed Senedd o ddarparu ymateb ysgrifenedig i adroddiadau Cyfnod 1 cyn dadl yr Egwyddorion Cyffredinol a Phenderfyniad Ariannol.

Yn ystod dadl Cyfnod 1 y mae Gweinidogion yn rhoi esboniad o ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion ym mhob adroddiad Pwyllgor ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, ond nid pob un, maent wedi rhoi mwy o fanylion drwy lythyr ffurfiol.

Er y bu achlysuron yn ystod y Bumed Senedd pan gyhoeddwyd ymatebion y Llywodraeth cyn neu ar ddyddiad dadl yr Egwyddorion Cyffredinol, nid oedd hyn yn rhywbeth arferol ar gyfer pob Bil. Mewn gwirionedd, cyhoeddwyd dros hanner yr ymatebion yn ysgrifenedig ar ôl y ddadl neu fe'u darparwyd ar lafar yn ystod y ddadl.

Mae Gweinidogion yn ymdrechu i ymateb i'r Pwyllgorau cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl ond nid yw bob amser yn ymarferol i Weinidogion Cymru wneud hyn cyn dadl Cyfnod 1 ar gyfer pob Bil, felly yn ymarferol mae'n bosibl y darperir yr ymatebion ysgrifenedig hyn ar ôl i'r ddadl ddigwydd.

Efallai y bydd amgylchiadau pan fo angen mwy o amser i ystyried goblygiadau'r argymhellion neu pan nad yw'r manylion sydd eu hangen i ddarparu ymateb cyflawn ar gael cyn dadl Cyfnod 1. Yn ogystal, gall y ddeddfwriaeth fod yn fath newydd o ddeddfwriaeth ac er ein bod yn anelu at ddarparu'r amcangyfrifon gorau o'r costau tebygol, mae sefyllfaoedd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

lle mae sawl ffactor amrywiol yn golygu nad oes modd cyfrifo costau manwl nes bod y ddarpariaeth yn cael ei phrofi a'i hasesu. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i roi gwybod i'r Pwyllgor Cyllid am yr wybodaeth ariannol sy'n ymwneud â phob Bil wrth iddynt fynd drwy wahanol gamau'r broses graffu yn y Senedd.

Yn ogystal, bydd Gweinidogion Cymru yn parhau â'r arfer a sefydlwyd yn ystod y Bumed Senedd o ysgrifennu at y Pwyllgorau pwnc a'r Pwyllgor Cyllid cyn gweithrediadau Cyfnod 3 o Fil os gwnaed newidiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2.

Rwyf wedi anfon copi o'ch llythyr ynghyd â'r ateb hwn at bob un o Weinidogion Cymru. Anfonir yr ateb hwn hefyd i'r Pwyllgor Busnes a Chadeiryddion y Pwyllgorau Polisi.

**MARK DRAKEFORD**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog

19 Rhagfyr 2022

Annwyl Brif Weinidog

Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Rhagfyr, a anfonwyd gennych mewn ymateb i gais y Pwyllgor Cyllid fod Llywodraeth Cymru yn dychwelyd i'r arfer o ddarparu ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau Cyfnod 1 gan bwyllgorau cyn i'r ddadl Cyfnod 1 gael ei chynnal.

Mae'n siomedig nad ydych yn gallu rhoi ymrwymiad mewn perthynas â'r cais rhesymol hwn. Rydych yn dweud yn eich llythyr: "Yn ystod dadl Cyfnod 1 y mae Gweinidogion yn rhoi esboniad o ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion ym mhob adroddiad Pwyllgor". Fodd bynnag, rydym o'r farn na ddylid ystyried y dull hwn yn arfer cyffredin, gan nad yw bob amser yn bosibl i Weinidogion ddarparu ymateb llawn a thrylwyr i bob argymhelliad, o ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar gael yn ystod y ddadl ei hun. Fel y nodais yn fy llythyr cychwynnol, yr arfer safonol yw bod y cynnig ynghylch y Penderfyniad Ariannol yn cael ei drafod yn syth ar ôl cytuno ar y cynnig Cyfnod 1. Felly, ychydig iawn o amser sydd gan y Senedd i ystyried ymateb y Llywodraeth cyn gorfod gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid ymrwymo adnoddau.

Rydych hefyd yn nodi'r posibilrwydd y bydd amgylchiadau pan fo angen mwy o amser i ystyried rhai argymhellion neu pan nad yw'r manylion sydd eu hangen i ddarparu ymateb cyflawn ar gael cyn cynnal dadl Cyfnod 1. O ystyried bod yr amserlenni ar gyfer Biliau'r Llywodraeth yn cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru, gyda'r Pwyllgor Busnes yn cytuno ar y dyddiadau cau ar gyfer Cyfnodau 1 a 2, dylid ystyried rhoi'r gorau i'r arfer o bleidleisio ar y cynnig ynghylch y Penderfyniad Ariannol ar yr un diwrnod â'r ddadl Cyfnod 1. Gwnaed penderfyniad tebyg yn y Pedwerydd Cynulliad, gan wrthdroi'r sefyllfa ddiofyn er mwyn gohirio'r bleidlais ar y cynnig Cyfnod 4 hyd nes bod wythnos wedi mynd heibio ar ôl i'r trafodion Cyfnod 3 ddod i ben, a hynny er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau drafod

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

fersiwn derfynol o’r Bil cyn gofyn i’r Senedd ei chymeradwyo. Rydym o’r farn y dylai’r un egwyddor fod yn berthnasol i’r cynnig ynghylch y Penderfyniad Ariannol. Byddai hyn yn rhoi amser i’r Aelodau fyfyrio ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid. Rydym o’r farn bod hyn yn arbennig o bwysig o ystyried nad oes gan y Senedd unrhyw gyfleoedd pellach i ystyried goblygiadau ariannol Biliau yn ffurfiol ar ôl i’r cynnig gael ei gytuno.

Yn olaf, rydych yn nodi y gallai deddfwriaeth “fod yn fath newydd o ddeddfwriaeth”, ac y gallai fod “sefyllfaoedd lle mae sawl ffactor amrywiol yn golygu nad oes modd cyfrifo costau manwl nes bod y ddarpariaeth yn cael ei phrofi a’i hasesu”. Mae’r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau hyn. Fodd bynnag, nid yw’n dderbyniol i Lywodraeth Cymru beidio â cheisio cyfrifo costau posibl deddfwriaeth. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn arf allweddol o ran asesu'n feirniadol yr ystod o ddulliau a archwiliwyd mewn perthynas â datblygu cynnig deddfwriaethol, ac o ran darparu dull o wneud penderfyniadau polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn cydnabod y ffaith na fydd yn bosibl darparu “costau manwl” bob amser. Fodd bynnag, mae’n hollbwysig bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau a buddion, a hynny er mwyn ein galluogi i graffu’n llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil – pwynt y mae’r Pwyllgor wedi’i wneud droeon.

Rydym yn gresynu’r ffaith ei bod yn ymddangos bod yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sydd wedi cael eu cyhoeddi gyda’r Biliau a gyflwynwyd hyd yma yn y Senedd hon yn rhyw fath o “sgil-gynnyrch” yn y broses o wneud penderfyniadau, yn hytrach na’r offeryn sy’n llywio’r broses honno. Mae’r Bil diweddaraf a drafodwyd gennym, sef y Bil Amaeth (Cymru), yn Fil fframwaith, lle mae cyfran sylweddol o’r costau yn ymwneud â’r cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy – cynllun na fydd yn cael ei gwblhau tan y flwyddyn nesaf. Yn y sefyllfaoedd hyn, gallai’r Senedd gytuno yn y pen draw ar Benderfyniad Ariannol ar gyfer Bil, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd adeg ei gyflwyno, ond a allai gynyddu’n sylweddol yn dilyn hynny. Mae’r diffyg eglurder hwn yn gwneud ein rôl fel Pwyllgor Cyllid yn un heriol iawn, ac yn amharu’n sylweddol ar ein gallu i wneud penderfyniad ynghylch a yw costau’n rhesymol ai peidio.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy’n cynnwys gwybodaeth anghyflawn neu annigonol, ni fyddai gan y Pwyllgor lawer o ddewis ond gorfodi Gweinidogion i ailymddangos gerbron y Pwyllgor unwaith y byddai’r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael, a hynny er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn destun gwaith craffu cadarn.

Fel y gwyddoch, mae nifer o bwyllgorau’r Senedd wedi codi pryderon tebyg ynghylch prydlondeb ymatebion Llywodraeth Cymru cyn cynnal dadleuon Cyfnod 1. Mae hyn yn creu darlun anffodus, ac yn codi cwestiynau ynghylch

ysbryd y gwaith ymgysylltu y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud â'r Senedd mewn perthynas â materion deddfwriaethol. Felly, rwyf yn gofyn i chi fyfyrio ar y materion uchod ac i ailystyried safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch darparu ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau'r Pwyllgor Cyllid cyn y cynhelir dadleuon Cyfnod 1, ac i ystyried cyflwyno'r cynnig ynghylch y Penderfyniad Ariannol o leiaf wythnos ar ôl i ddarpariaethau Cyfnod 1 gael eu cytuno. O ystyried y pwysau ar gyllidebau cyhoeddus, mae'n bwysicach fyth bod Llywodraeth Cymru yn darparu cymaint o eglurder a sicrwydd â phosibl cyn gofyn i Aelodau awdurdodi gwariant sy'n gysylltiedig â Biliau.

Gan fod y materion hyn yn berthnasol i gylchoedd gwaith holl bwyllgorau'r Senedd, mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Gadeiryddion y pwyllgorau hynny.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Cyllid**

**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

12 Rhagfyr 2022

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

## Cyllideb Ddrafft 2023-24

Ysgrifennais atoch cyn toriad yr haf mewn perthynas â gwaith ymgysylltu y Pwyllgor Cyllid cyn y Gyllideb a dadl y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gyllideb sydd i ddod. Ysgrifennaf yn awr i roi diweddariad pellach ar y gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

### Ymgynghoriad

Ar ddechrau tymor yr hydref, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymgynghoriad i geisio gwybodaeth am y Gyllideb Ddrafft ar ran yr holl Bwyllgorau. Cawsom 29 o ymatebion ac mae'r rhain ar gael ar wefan y Pwyllgor Cyllid.

### Amserlen

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth wedi gohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft eto eleni oherwydd Datganiad Hydref y DU a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) wedi cadarnhau y bydd yn cyhoeddi'r fersiynau amlinellol a manwl o'r Gyllideb Ddrafft gyda'i gilydd ar 13 Rhagfyr. Bydd y Gweinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 14 Rhagfyr am sesiwn dystiolaeth gychwynnol ar y Gyllideb Ddrafft.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Ffocws y Gyllideb

Mae Cyllideb eleni yn debygol o ganolbwyntio ar yr argyfwng costau byw, costau ynni cynyddol a chwyddiant uchel. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi nifer o feysydd yr ydym am i'r gwaith craffu ganolbwyntio arnynt, sef:

- pa effaith y mae pwysau chwyddiant yn ei chael ar gyllidebau refeniw a chyfalaf a sut mae hyn wedi newid fforddiadwyedd cynlluniau blaenorol;
- sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu;
- i ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd;
- sut mae dyraniadau cyllideb yn cefnogi'r dyheadau yng nghynllun Sero Net Cymru;
- polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac effaith argyfwng costau byw ac anghydraddoldeb rhywiol;
- y dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hyn wrth ddyrannu adnoddau (gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);
- cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a gweddnewid gwasanaethau;
- sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb;
- sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca;
- cefnogaeth i fusnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl cyfnod pontio'r UE;
- beth yw'r cyfleoedd allweddol i fuddsoddiad y Llywodraeth gefnogi 'ailgodi'n gryfach' (h.y. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

Yn ogystal, nodwyd y meysydd canlynol fel blaenoriaethau yn ystod digwyddiadau rhanddeiliaid ac ymgysylltu'r Pwyllgor yn ystod tymor yr haf:

- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi – beth yw'r blaenoriaethau a pha mor addas yw'r cymorth presennol o ystyried cyfran y bobl sy'n byw mewn tlodi cymharol o ran incwm, yng Nghymru?

- Rhestrau aros y GIG – a oes tystiolaeth o gynllun cadarn, wedi'i ategu gan adnoddau digonol, i fynd i'r afael â'r nifer uchaf erioed o bobl yng Nghymru sydd ar restrau aros ar gyfer triniaeth gan y GIG sydd wedi'i chynllunio neu nad yw'n fater brys, a yw'n amlwg bod hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru?
- plant a phobl ifanc – a yw digon o arian yn cael ei ddarparu a'i gyfeirio'n briodol i gefnogi plant a phobl ifanc y mae'r pandemig wedi effeithio ar eu haddysg, eu datblygiad, eu hiechyd meddwl a'u llesiant?
- materion yn ymwneud â chynaliadwyedd hirdymor y GIG, gofal cymdeithasol, addysg bellach ac uwch, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys sut y gallant wneud arbedion effeithlonrwydd a thrawsnewid y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau.
- yr economi a seilwaith – a yw'r cynlluniau cywir yn cael eu blaenoriaethu i gefnogi busnesau ac economi Cymru, sut mae Llywodraeth Cymru yn galluogi Cymru i ffynnu ar ôl COVID-19 a Brexit?
- sut y dylai'r Gyllideb fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig a datblygu economïau gwledig?
- creu Cymru wyrddach – a yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i symud i economi wyrddach yn glir ac a oes digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau? A oes angen diwygio'r cynlluniau hyn i adlewyrchu'r brys cynyddol i leihau'r ddibyniaeth ar nwy ac olew o ystyried y rhyfel yn Wcráin?
- y trydydd sector a gwirfoddoli – sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi sefydliadau'r trydydd sector wrth iddynt fynd i'r afael â heriau ariannol a galw cynyddol am rai gwasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig?
- trethiant - sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau codi trethi a benthyca ac a ydych yn teimlo y dylid ehangu'r pwerau hyn, eu cadw'r un fath neu eu lleihau?

Gobeithiwn y bydd yr ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu yn ategu ac yn llywio gwaith y Pwyllgorau polisi, a byddwn yn eich annog i ddefnyddio rhai o'r meysydd a amlinellir uchod fel ffocws ar gyfer eich gwaith craffu ar y gyllideb.

### Protocol Proses y Gyllideb

Fel y crybwyllwyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft eto eleni. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol y bu oedi, sydd wedi arwain at gyfnodau craffu cwtogedig i'r Senedd. Mae'r Pwyllgor Cyllid o'r farn, felly, ei bod yn bryd adolygu Protocol Proses y Gyllideb a gyflwynwyd yn 2017. Mae gan y protocol lawer o fanteision, ond credwn fod angen ei ddiweddaru i


Senedd Cymru
Welsh Parliament

adlewyrchu arferion sefydledig a phrofiadau diweddar, yn enwedig y duedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i Lywodraeth Cymru ohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft oherwydd amseriad digwyddiadau cyllidol y DU. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn ddiweddar yn cynnig newidiadau yn y meysydd a ganlyn:

- ffurfioli gwaith ymgysylltu cyn y Gyllideb a gwaith craffu'r Pwyllgor; a
- darparu mwy o sicrwydd mewn perthynas ag amseriad y Gyllideb Ddrafft.

Mae'r Gweinidog eisoes wedi mynegi parodrwydd i ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid ar y mater hwn, ac rydym yn gobeithio y bydd yn barnu bod y newidiadau hyn yn gymesur. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gadeiryddion y Pwyllgorau ar y mater hwn unwaith y byddaf wedi cael ymateb y Gweinidog. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gobeithio y gellir mynd i'r afael â'r newidiadau hyn a'u rhoi ar waith cyn cylch cyllideb 2024-25.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y Gyllideb Ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu ag Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6372 neu yn seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Julie James MS, Minister for Climate Change
Rebecca Evans MS, Minister for Finance and Local Government
cc. Emma Williams, Director of Housing and Regeneration

15 November 2022

Dear Ministers,

**Welsh Budget 2023/24: Housing Support Grant**

We are writing to you regarding the upcoming Welsh budget and the need for additional investment in homelessness and housing support services in Wales.

We recognise that Ministers are anticipating a very challenging budget settlement, but we strongly believe that the Housing Support Grant should be one of the Welsh Government's priorities and given an inflationary increase. The services funded by this grant are absolutely critical to the prevention and alleviation of homelessness, and we are deeply concerned that failure to increase the grant for 2023/24 will put them at significant risk at a time when they will be more important than ever. The same applies to the Homelessness Prevention Grant.

**Cost of living crisis and frontline staff wages**

We warmly welcomed the increase to the Housing Support Grant during the pandemic, reflecting the need to fund more services. However, this has not resulted in a meaningful increase in staff wages. In September 2022, Cymorth published a report that exposed the financial challenges facing frontline homelessness and housing support workers. This research shows that even before the cost-of-living increases this autumn, 79% of frontline workers were not putting on the heating in order to save money, 44% were struggling to pay rent and bills, 7% were using food banks and many others were skipping meals and taking on additional jobs. Others are leaving the careers they love because they cannot make ends meet.

With record numbers in temporary accommodation and immense pressure on housing support services, there is a very real risk that providers will be unable to retain enough staff to maintain service delivery. Unless funding is increased to enable an increase in wages, frontline workers will be pushed further into poverty, or will continue to leave the sector for better paid jobs with less stress.

**The increased cost of running services**

Homelessness and housing support providers are increasingly concerned about the cost of running services. Accommodation-based services such as temporary and supported accommodation have particular concerns about the increase in energy bills, which are often paid centrally by the support provider. We have also received feedback from some providers that they feel unable to bid for some housing support contracts, as the funding offered does not cover the true cost of delivering the service. In some cases, the contract value is the same as a few years ago, with no inflationary increase to reflect the cost of running the service today. As well as choosing not to bid for contracts, there is a risk that some providers may walk away from existing agreements if there is no increase in funding.

**Increased pressure on services**

The scale of homelessness in Wales, reflected in the huge number of people in emergency or temporary accommodation, is putting acute pressure on services and the staff responsible for delivering them. They are also contending with implementation of the Renting Homes (Wales) Act 2016 and trying to engage in the planned transition to rapid rehousing. We fully support the Welsh Government's ambition to transform services and end homelessness, but this, along with the continued impact of COVID, is putting incredible pressure on services. While our members want to be part of the solution, they need more resources to retain and recruit more staff, expand provision, and maintain delivery of these critical services.

**Financial hardship for individuals**

During this acute cost of living crisis, the preventative approach that Welsh Government has committed to is more important than ever before. Supporting early intervention grants such as the Housing Support Grant is a critical part of this. It is also important that access to all preventative funding streams is straightforward and consistent to maximise impact. We would be pleased to work with your officials to ensure that funding is being used effectively to prevent crisis and to enable individuals to maintain financial resilience.

**Risks to other public services**

Research conducted by Cardiff Metropolitan University has demonstrated that homelessness and housing support services deliver significant benefits to other public services, with a net saving of £1.40 for every £1 invested in the Housing Support Grant. We also know that support providers often pick up the pieces when people who have experienced trauma and system failure have nowhere else to turn. If housing support providers are unable to maintain their service provision, the negative impact will not be limited to homelessness, but will also be felt by health, social care and criminal justice services.

We understand that Ministers face extremely difficult decisions as you set the budget for 2023/24, but the risks posed by not increasing homelessness and housing support funding are significant. We hope the issues we have raised in this letter are given careful consideration over the coming weeks and that an inflationary increase is awarded to the Housing Support Grant and the Homelessness Prevention Grant.

Your sincerely,

**Katie Dalton**
Director
Cymorth Cymru

**Stuart Ropke**
Chief Executive
Community Housing Cymru

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
—
Health and Social Care Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

15 Rhagfyr 2022

Annwyl Jayne, Jenny a John

Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl

Er gwybodaeth, atodaf gopi dan embargo o adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Cysylltu'r dotiau: Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru*. Mae'r adroddiad dan embargo tan 00.01 ddydd Llun 19 Rhagfyr, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich Pwyllgorau drin yr adroddiad fel dogfen gyfrinachol tan hynny.

Mae'r materion yr ydym wedi'u harchwilio drwy gydol yr ymchwiliad yn berthnasol i holl bortffolios ein Pwyllgorau. Gobeithiwn fod y wybodaeth a'r papurau briffio yr ydym wedi'u rhannu yn ystod ein hymchwiliad wedi bod yn ddefnyddiol o ran llywio eich gwaith, a'u bod wedi ategu'r manteision sy'n deillio o'r ffaith bod Aelodau'n eistedd ar bwyllgorau cysylltiedig.[1] Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am ein gwahodd i gymryd rhan yn eich trafodaethau gyda Mind Cymru a phobl ifanc ynghylch y trefniadau pontio rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion.

[1] Ers mis Gorffennaf 2022, mae Sarah Murphy wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Roedd Ken Skates, sy'n aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, yn bresennol fel dirprwy ar gyfer rhan fwyaf o'r sesiynau tystiolaeth lafar a gynhaliwyd ar gyfer yr ymchwiliad. Cymerodd ran hefyd yn y trafodaethau a gynhaliwyd ar faterion allweddol yr ymchwiliad ac ar baratoi'r adroddiad.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Rydym am sicrhau bod pobl wrth galon gofal iechyd a gofal cymdeithasol, ac wrth galon ein gwaith. Mae ein dull gweithredu wrth gynnal yr ymchwiliad hwn wedi adlewyrchu hynny, gan sicrhau bod gan bobl sydd â phrofiad byw ac arbenigedd gyfle i gyfrannu mewn ffyrdd amrywiol. Rydym yn hynod o ddiolchgar i’n grŵp cynghori ar-lein, sy’n cynnwys pobl â phrofiadau byw gwahanol, am rannu eu sylwadau a’u harbenigedd â ni drwy gydol yr hydref, wrth i ni gwblhau’r broses o gymryd tystiolaeth a pharatoi ein hadroddiad. Bydd crynodeb o sylwadau’r grŵp cynghori yn cael ei gyhoeddi ddydd Llun, ynghyd â’n hadroddiad.

Rydym yn bwriadu ceisio cytundeb y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl ar ein hadroddiad yn y gwanwyn. Er mwyn sicrhau bod yr ymchwiliad yn parhau i elwa ar yr her adeiladol a gynigir gan bobl sydd â phrofiadau byw, byddwn yn gofyn i aelodau’r grŵp cynghori rannu eu sylwadau â ni ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru cyn i'r ddadl gael ei chynnal.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Michael Gove MP
Secretary of State for Levelling Up, Housing and Communities and Minister for Intergovernmental Relations
PSMichaelGove@levellingup.gov.uk

By email only
15 December 2022

Dear Michael,

**This letter is sent jointly from the Scottish Government's Minister with Special Responsibility for Refugees from Ukraine and the Welsh Government's Minister for Social Justice.**

We write jointly following yesterday's announcement about changes to UK Government funding to support the arrival of Ukrainians.

The changes announced amount to a reduction in funding available to help people fleeing Putin's illegal war in Ukraine settle into a new home. In the face of continued and acute need, it is counter-productive and short-sighted to cut vital funding available to deliver public services to the most vulnerable. It will place local authorities under extreme and unacceptable pressure during an unprecedented cost of living crisis.

Those arriving from Ukraine deserve the same care and support which we provide to those arriving from Afghanistan or through the UK Resettlement Scheme. The approach and funding model used under those schemes is internationally recognised as good practice and supported by each of our Governments. The decision to undermine the success of this safe and legal route to the UK is at odds with recent UK Government claims about a generous approach.

Whilst we welcome the additional payments to volunteer hosts, they are needed now – not after 12 months of hosting. Many hosts have told us that without additional financial support, the cost of living crisis means they will not be able to continue to provide this exceptional service. Our public services are under immense housing strain and further, avoidable, homelessness presentations will mean more and longer stays in inadequate hotel

Scottish Ministers, special advisers and the Permanent Secretary are covered by the terms of the Lobbying (Scotland) Act 2016. See www.lobbying.scot



INVESTORS IN PEOPLE | Accredited Until 2020 | disability confident LEADER

accommodation, as well as increasing community tensions. It is therefore vital that all volunteer hosts receive this uplift immediately.

We note that the £500m housing support fund is for England-only and from existing departmental budgets. Due to the costs of the super sponsor route, which are not replicated in England, we have already made available more than the proportionate amount in supporting Ukrainian housing needs in our nations and we do not have the fiscal headroom to allocate additional sums in a similar manner. Additionally, the decision to deviate from a traditional Year 2 tariff to support Ukrainians arriving in our nations, will have a disproportionate effect in Scotland and Wales due to our larger share of arrivals. In our view, the £500m should be considered as a new budget allocation, with consequential funds coming to Scotland and Wales.

We therefore ask that you urgently revisit this decision, which was made without appropriate consultation and engagement with Devolved Governments, and to meet with us quickly to find a more effective way forward.

This letter is copied to Councillor Andrew Morgan, Leader of the Welsh Local Government Association and Councillor Shona Morrison, President of the Convention of Scottish Local Authorities. We have also copied this letter to the Conveners of the Scottish Parliament Social Justice and Social Security Committee and Constitution, Europe, External Affairs and Culture Committee, and to the Chair of the Senedd Local Government and Housing Committee.

**NEIL GRAY** **JANE HUTT**

Scottish Ministers, special advisers and the Permanent Secretary are covered by the terms of the Lobbying (Scotland) Act 2016. See www.lobbying.scot

St Andrew's House, Regent Road, Edinburgh EH1 3DG
www.gov.scot



INVESTORS IN PEOPLE | Accredited Until 2020 | disability confident LEADER

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

SeneddHousing@senedd.cymru

15 Rhagfyr 2022

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 25 Tachwedd, ynglŷn â diogelwch adeiladau yng Nghymru.

Mae diogelwch yng Nghymru yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon. Mae'n hanfodol bwysig bod pobl yn teimlo'n saff a diogel yn eu cartrefi.

Mae'r Llywodraeth hon yn parhau i ddatblygu ein rhaglen adfer adeiladau, gan ddilyn dull gwahanol a mwy cyfannol o ymdrin â diogelwch adeiladau, a hynny drwy beidio â chyfyngu mynediad i gyllid i adeiladau â chladin yn unig. Yn hytrach, rydyn ni'n ystyried y risgiau tân a berir o'r tu allan a'r tu mewn i adeiladau ag uchder o 11 metr neu fwy. Mae'r gwaith hwn yn cydredeg â rhaglen adfer sylweddol i sefydlu cyfundrefn diogelwch adeiladau yng Nghymru, sy'n addas i'r diben.

Mae hwn yn faes gwaith cymhleth iawn, ac rydyn ni'n gweithio'n gyflym i ddod o hyd i ateb – ond rhaid sicrhau mai'r ateb cywir ydyw.

Mae fy swyddogion yn cadw cysylltiad ag aelodau o'r Welsh Cladiators yn rheolaidd. Rydym eisoes wedi ymdrin â'r holl bwyntiau a godwyd yn yr ohebiaeth a ddarparwyd gan y pwyllgor.

Rwyf wedi gwrando ar alwadau'r Welsh Cladiators i ddeddfu adrannau 116–125 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau y DU yng Nghymru, a mynd i'r afael â nhw, a hynny'n gyflym ac mewn deddfwriaeth frys lle bu hynny'n bosibl.

Mae adrannau 116–125 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 yn cymhwyso darpariaethau i orfodi datblygwyr i gyweirio adeiladau. Nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol ond yn Lloegr, ac ni ellir mo'u cychwyn yng Nghymru drwy is-ddeddfwriaeth. At hynny, ni fyddai'n bosibl eu copïo i mewn i gyfraith Cymru oherwydd eu bod nhw wedi'u teilwra i'r sefyllfa (sylweddol wahanol) sy'n berthnasol yn Lloegr.

Er fy mod o blaid cymhwyso darpariaethau penodol o blith y rheini a nodir yn Neddf Adeiladu 2022, nid yw pob un ohonynt yn addas yng nghyd-destun Cymru. Rwyf hefyd o'r farn nad yw deddfwriaeth frys yn gyfrwng priodol yn yr achos hwn. O ddilyn y dull hwn, perir

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

peidio â rhoi digon o amser i'r pwyllgorau perthnasol graffu ar y Bil na chlywed safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â rhinweddau cyflwyno deddfwriaeth o'r fath.

Bydd aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol o'r ffaith y cynhaliwyd dadl ar y pwnc hwn – Deddf Diogelu Adeiladau 2022 – yn y Senedd ar 16 Tachwedd. Gellir darllen trawsgrifiad a gwylio fideo o'r ddadl yma.

Bydd y Lywodraeth hon yn cyflwyno ei deddfwriaeth sylfaenol ei hun. Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i gyflwyno Bil ar ffurf ddrafft yn ystod tymor y Senedd hon. Nid wy'n gallu cadarnhau pryd yn union y caiff y ddeddfwriaeth ei chyflwyno, ond mae swyddogion yn mynd i'r afael â'r mater hwn ac yn parhau i ddatblygu'r gwaith polisi sylfaenol a fydd yn cefnogi'r broses o lunio deddfwriaeth ddrafft.

Byddaf yn sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol a gyflwynir yn cael yr effaith a fwriedir yng nghyd-destun Cymru.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Dear John & Colleagues

We wish you all a Happy and Healthy New Year

We are writing as a follow up to our meeting on 13 July 2022 concerning the Welsh home build & fire cladding crisis and recent developments

You will be aware that on 16 November efforts made by a cross party group of Senedd MSs to introduce sections 116-125 of the English Building Safety Act into Welsh law were defeated by a Welsh Labour Government whip and the casting vote of the Llywydd.

The debate was a huge disappointment to long suffering victims of this crisis. If enacted the powers granted to Welsh Local Authorities and Fire and Rescue services would have enabled them to issue legally enforceable Remediation & Contributions orders against developers and building owners - as is currently happening in England. Without those powers Welsh citizens now have no option but to rely on their own efforts using the Defective Premises Act. The legal costs and risks involved in taking on large and powerful developers are not attractive but the impotence of the Welsh Government leaves no real choice for those who want to try and get on with their lives.

The debate was also frustrating for the lack of challenge to Minister Julie James assertions concerning sections 116-125 and her Pact. She was able to divert attention away from the powers that would have been granted to regulatory authorities and spin an argument that she was seeking to protect leaseholders from risk? Despite the best efforts of some cross party Senedd members the vote "against" seemed extraordinary when the English BSA enjoyed widespread Westminster cross party support and was subject to enormous scrutiny - good enough for England but obviously not good enough for Wales!

The Minister's additional comments that detailed plans from developers would only come after the Pact had been turned into a legal agreement were both misleading and at odds with the wording of the Pact. We have repeatedly outlined the legal complexities of trying to turn "Pacts" and "Pledges" into effective and legally enforceable contracts. At best they can only ever be "an agreement to agree" and will be unable to deal with the complexity of each development's needs. We have recently learnt that efforts in England to get developers to sign a final legal document are failing.

We have also learnt that after some efforts to connect with the WG on the crisis our meetings are to cease and we have been invited to attend a much larger stakeholder group - which comprises many of the players, who it might be argued are partly responsible for the crisis in the first place. This group is also expected not to revisit or challenge recent WG policy. A very strange commitment for a strategic group! And all this when one development in the Bay, Victoria Wharf has experienced three fire incidents in the last several months.

So as long suffering victims we appear to be left to our own devices and would welcome any advice on how we can engage with a Welsh Government that continually rejects any input or advice given to it by the very victims it is supposed to protect. Our situation is at great odds to the access that English victims enjoy. You should also note that in some cases we lack any real and proactive local elected representative support.

We would like to understand if your committee can offer any further support to us. We are of course aware that at our meeting in July the Welsh Labour members failed to attend and Chair John Griffiths and other Welsh Labour members voted with WG against the enactment of 116-125 in Wales. We are not versed in the protocols of engaging with the Welsh Government so would welcome your thoughts and any advice.

We would of course also be happy to meet your full committee again to outline the immense financial and mental stress that the crisis continues to extract from people who did everything right. Your committee would also be most welcome to visit any of the developments to see the defects and meet some wider victims.

Once again best wishes for 2023

With regards

Welsh Cladiators

# CARTREF YW POPETH
# HOME IS EVERYTHING

SHELTER CYMRU

John Griffiths MS

Chair, Local Government and Housing Committee

Senedd, Caerdydd CF99 1SN

15th December 2022

Dear John,

**RE: Inquiry on Homelessness and Temporary Accommodation: additional information**

I am writing as requested to supply additional information about our casework experience of service charges in temporary accommodation. I hope the below is useful to the Committee in your inquiry.

- Service charge arrears are a relatively common issue among people using our services. Although service charges are covered by Housing Benefit for supported accommodation, they are not covered for temporary accommodation. Affordability problems can be further exacerbated by the fact that in some temporary accommodation there is also a shortfall between rent and housing benefit. It is good practice to avoid charging these shortfalls.
- We find a large variation in the levels of service charge across different local authorities and across different types of accommodation. There does not appear to be any consistency in what is charged for, and there is little transparency. There is no detailed guidance in the statutory Code of Guidance to assist local authorities to ensure that service charges are set at fair, affordable and transparent levels.
- People's ability to challenge unaffordable service charges is in practice limited. Service charges are among the costs that local authorities should take into account when determining whether temporary accommodation is suitable from an affordability perspective (Code of Guidance 19.26). However in practice suitability challenges can be complex and intimidating, particularly if people are not receiving independent specialist

housing advice to support them with the review, and local authorities have 56 days to complete a review by which time significant arrears may have accrued.

- Arrears in service charges can be a barrier to accessing move-on accommodation. We are aware that some local authorities are paying off service charge arrears from their own funds in order that people can continue to access the social housing register.

I hope the above is useful to you. Please let me know if I can be of further assistance.

Yours sincerely,



**Jennie Bibbings**

**Head of Campaigns, Shelter Cymru**

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon